Y Comisiwn Etholiadol

Rhan C – Gweinyddu'r bleidlais

Etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru: canllawiau i Swyddogion Canlyniadau

Ionawr 2022 (Diweddarwyd Chwefror 2023)

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sy'n arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer y digwyddiadau pleidleisio hyn hefyd ar gael yn Saesneg.
I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddaraidau i’r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o’r newid
Chwefror 2022	Wedi'i ddiweddaru i ymgorffori newidiadau a gyflwynwyd gan Reoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Ôl-ddilynol) (Cymru) 2022 • testun ar ddefnyddio cyfeiriad gohebiaeth lle mae ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun • testun ar selio pecynnau yn cynnwys cofrestri wedi'u marcio a rhestrau rhif cyfatebol

Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 a Reoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Ôl-ddilynol) (Cymru) 2022 sy'n dod i rym ar gyfer etholiadau prif ardaloedd ac etholiadau cynghorau cymuned a gynhelir ar ac ar ôl 5 Mai 2022.

1.1 Fel Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol (SC llywodraeth leol), rydych yn gyfrifol am bob agwedd ar y broses enwebu mewn etholiadau llywodraeth leol yn eich ardal.[1]

A Mae gwybodaeth fanylach am rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau ar gael yn Rhan A – Rolau a chyfrifoldebau.

1.2 Dylai eich cynllun prosiect gynnwys manylion am sut y byddwch yn ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid a sut y byddwch yn rheoli'r broses enwebu.

1.3 Gall yr arferion a'r broses ar gyfer sefyll etholiad fod yn anghyfarwydd i lawer o ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol, yn enwedig os ydynt yn rhai newydd neu'n llai profiadol, a bydd angen eich cymorth arnynt er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn effeithiol. Felly, mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu ag ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau cymaint â phosibl fel eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i sefyll etholiad a bod ganddynt hyder bod y prosesau yn cael eu rheoli'n dda.

1.4 Er enghraifft, rhaid i bob ymgeisydd wybod yr hyn sydd angen iddo ei wneud er mwyn sefyll etholiad, beth yw'r terfynau gwariant, sut y gall gael gafael ar y gofrestr etholiadol a beth yw'r cyfyngiadau o ran defnyddio'r gofrestr, gan gynnwys ystyriaethau diogelu data. Un anhawster sy'n wynebu Swyddogion Canlyniadau yw nad yw'r sawl sy'n bwriadu sefyll etholiad bob amser yn cysylltu â staff etholiadau cyn cyflwyno eu papurau enwebu. Felly, bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo argaeledd gwybodaeth a sesiynau briffio i bob ymgeisydd ac asiant cyn iddynt gwblhau a chyflwyno eu papurau enwebu i chi, er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol am sefyll mewn etholiad efallai, ynghyd â phecyn enwebu, cyn unrhyw sesiynau briffio.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodir yn safon perfformiad 2, dylech sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy sicrhau y rhoddir canllawiau ysgrifenedig iddynt.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi sicrhau bod canllawiau ysgrifenedig ar waith i'w rhoi i ymgeiswyr.

Sesiynau briffio

1.5 Dylech sicrhau y cynigir sesiwn briffio ar y prosesau penodol sy'n berthnasol i'r etholiad y maent yn ei sefyll, gan gynnwys trefniadau lleol, i ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad. Dylai'r sesiynau briffio ddarparu ar gyfer y ffaith nad yw rhai pobl o bosibl yn gwybod fawr ddim am reolau na gweithdrefnau etholiad neu nad ydynt wedi ymwneud ag etholiadau ers peth amser.

1.6 Dylai pob sesiwn briffio amlygu pwysigrwydd dilyn rheolau'r etholiad ac unrhyw newidiadau i'r rheolau ers yr etholiad diwethaf.

1.7 Yn arbennig, dylech ddarparu briffiad ar y broses enwebu gan gynnwys: terfynau amser, rheolau cyflwyno, defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin, cwblhau papurau enwebu, a defnyddio enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau. Dylech hefyd nodi sut rydych yn disgwyl i gefnogwyr ymddwyn yn yr ardal bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio.

A Mae'r Coleg Plismona Arfer Proffesiynol Awdurdodedig wedi darparu canllawiau ar Gadw trefn ac atal dylanwad gormodol y tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Bwriedir i'r ddogfen hon helpu'r heddlu i ystyried y ffordd orau o blismona gorsafoedd pleidleisio ac mae'n cynnig rhai camau ymarferol i'w helpu i leihau'r tebygolrwydd o broblemau a delio ag unrhyw rai sy'n codi. Er ei bod ar gyfer y pwynt cyswllt unigol gall hefyd fod o fudd i chi, yn enwedig wrth gyfleu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan

gefnogwyr yn ardal y man pleidleisio i ymgeiswyr ac asiantiaid. Dylai gael ei darllen ar y cyd ag adran 3 o'r Cod ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr: cofrestru etholiadol, pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio.

1.8 Er y dylech wahodd pob darpar ymgeisydd i sesiwn friffio cyn y cyfnod enwebu neu ar ddechrau'r cyfnod enwebu, gallech ddewis cynnal sesiwn friffio ychwanegol ar ôl i'r ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad gael eu cadarnhau ar ôl i'r broses enwebu gau.

1.9 Dylai eich sesiwn neu sesiynau briffio hefyd amlygu unrhyw drefniadau diogelwch sydd wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymgynghoriad â'r heddlu. Efallai y byddwch am wahodd eich pwynt cyswllt unigol yn yr heddlu i fynychu unrhyw sesiynau briffio, neu ddarparu deunydd ysgrifenedig y gallwch ei roi i ymgeiswyr ac asiantiaid.

1.10 Mae cyflwyniad templed ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau lleol y gallwch ei ddefnyddio ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodir yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant etholiadol ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi drefnu sesiynau briffio a pharatoi adnoddau briffio.

Rhoi gwybodaeth am brosesau etholiadol

1.11 Dylech sicrhau y caiff pob ymgeisydd ac asiant etholiad ganllawiau ysgrifenedig ar y prosesau etholiadol, gan gynnwys trefniadau lleol. Dylai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn da bryd er mwyn galluogi ymgeiswyr ac asiantiaid i weithredu arni.

1.12 Diben darparu canllawiau ysgrifenedig yw sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid yn gallu cael gafael ar ganllawiau awdurdodol a chynhwysfawr er gwybodaeth unrhyw bryd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn etholiad. Nid oes rhaid i ganllawiau ysgrifenedig o'r fath gael eu llunio ar ffurf copi caled bob tro – mewn rhai achosion gall fod yn briodol rhoi dolen i ymgeiswyr ac asiantiaid lle gallant ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ar-lein – ond mae'n bwysig, ymhob achos, sicrhau y gall ymgeiswyr ac asiantiaid gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd a gwneud beth bynnag sydd ei angen i hwyluso hyn.

1.13 Fel rhan o'ch cynlluniau ar gyfer ymgysylltu ag ymgeiswyr ac asiantiaid a'u helpu i gymryd rhan yn yr etholiadau, bydd angen i chi benderfynu sut y caiff gwybodaeth am drefniadau lleol ei rhoi iddynt.

1.14 Bydd trefniadau lleol yn cynnwys gwybodaeth am y dyddiadau, yr amseroedd a'r lleoliadau ar gyfer y prosesau etholiadol allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- dosbarthu ac agor pleidleisiau post
- pleidleisio
- dilysu a chyfrif pleidleisiau

1.15 Pa ddull bynnag a ddefnyddiwch ar gyfer rhannu'r wybodaeth, dylech sicrhau y gall ymgeiswyr ac asiantiaid gael gafael ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn yr etholiad y maent am sefyll ynddo.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi gwybodaeth ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Pecynnau enwebu

1.16 Dylech baratoi pecyn enwebu ar gyfer unrhyw un sy'n mynegi diddordeb mewn sefyll etholiad.

A Rydym wedi llunio set o bapurau enwebu ar gyfer etholiadau prif ardal ac etholiadau cyngor cymuned sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sydd eu hangen ar gyfer enwebiad.

1.17 Dylai'r pecyn enwebu gynnwys y canlynol:

- ffurflen enwebu
- ffurflen cyfeiriad cartref
- ffurflen i'r ymgeisydd (neu rywun ar ei ran) roi hysbysiad o benodiad asiant etholiad (nid oes ei hangen ar gyfer etholiadau cyngor cymuned, lle nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer penodi asiantiaid etholiad)
- ffurflenni ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio, asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid cyfrif
- tystysgrif awdurdodi er mwyn caniatáu i ymgeisydd ddefnyddio disgrifiad plaid wleidyddol gofrestredig

- ffurflen i ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig ofyn am ddefnyddio arwyddlun
  - canllawiau ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantiaid yn cwmpasu agweddau allweddol ar y broses etholiadol, gan gynnwys cymhwyso ac anghymwyso ar gyfer etholiad, y broses enwebu, beth y dylid ac na ddylid ei wneud wrth ymgyrchu, cael gafael ar drafodion etholiadol a'r hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan
  - manylion am unrhyw drefniadau lleol, megis y trefniadau ar gyfer agor pleidleisiau post, yr etholiad a'r cyfrif
  - copi o'r Cod ymddygiad i ymgyrchwyr ym Mhrydain Fawr sy'n nodi'r hyn a gaiff a'r hyn na chaiff ei ystyried yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned
  - manylion am sut i gael copi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau'r pleidleiswyr absennol, a ffurflenni i wneud y fath geisiadau ynghyd â gwybodaeth am ble i anfon y ceisiadau hyn. Dylech danlinellu'r ffaith mai dim ond yn unol â Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001 a deddfwriaeth diogelu data y gellir defnyddio'r wybodaeth a geir yn y gofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol.
  - gwybodaeth am y terfynau gwariant a rhoddion ar gyfer ymgeiswyr
  - ffurflen i ymgeisydd dynnu allan o'r etholiad a gaiff ei ymladd os bydd yn penderfynu gwneud hynny ar ôl iddo gael enwebiad dilys
  - unrhyw wybodaeth berthnasol arall

Dylech hefyd roi gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantiaid ynglŷn â sut y bydd y broses ar gyfer cyflwyno papurau enwebu yn electronig yn gweithio yn ymarferol er mwyn helpu i sicrhau y caiff enwebiadau electronig eu cyflwyno'n llwyddiannus a rheoli disgwyliadau. Gallech roi'r wybodaeth o'r datganiad ar gyflwyno'n electronig, gan bwysleisio pwysigrwydd cyflwyno enwebiadau i'r cyfeiriad e-bost a roddwyd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â gwneud hynny. Gallech hefyd amlinellu'r trefniadau ar gyfer cynnal gwiriadau anffurfiol mewn perthynas ag enwebiadau a gyflwynir yn electronig.

A Mae canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau prif ardal leol ac etholiadau cyngor cymuned ar gael ar ein gwefan.

Canllawiau ar derfynau gwariant

1.18 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddilyn rheolau penodol o ran faint y gallant ei wario, pwy y gallant dderbyn rhoddion ganddynt, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gofnodi ar ôl yr etholiad.

1.19 Dylech sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn gallu cael gafael ar wybodaeth am gyfrifo'r terfyn gwariant[2] (gan gynnwys y ffigur etholaeth),

ffurflenni gwariant a datganiadau er mwyn eu galluogi i fodloni gofynion adrodd.

1.20 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd dylech gydweithio â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol fel y gallwch roi ffigur etholaeth cywir i ymgeiswyr yn yr etholiad llywodraeth leol a fydd yn eu galluogi i gyfrifo eu terfyn gwariant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cael y ffigurau cywir fel eu bod yn gwybod faint y gallant ei wario. Y ffigur sydd ei angen ar ymgeiswyr yw cyfanswm nifer yr etholwyr ar y gofrestr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal etholiadol berthnasol ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad (h.y. pum diwrnod gwaith ar hugain cyn yr etholiad),[3] ac eithrio unrhyw gyrhaeddwyr na fyddant yn 16 oed ar y diwrnod pleidleisio[4].

A Mae'r Comisiwn wedi llunio canllawiau ar wariant a rhoddion ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau lleol y gallwch eu defnyddio i roi gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantiaid am ffurflenni a datganiadau gwariant er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd. Mae hefyd wedi llunio nodyn cyfarwyddyd ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned ynghyd â'r ffurflen a'r datganiad gwariant i ymgeiswyr.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am wariant etholiadol ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi gwybodaeth ysgrifenedig i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Rhoi gwybodaeth am gael gafael ar y gofrestr etholiadol

1.21 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi'r cyfryw gopïau o'r gofrestr etholiadol i'r Swyddogion Canlyniadau fel sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol agweddau ar yr etholiad.[5] Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech gysylltu ag ef er mwyn cytuno ar y ffordd y caiff hyn ei reoli yn ymarferol.

1.22 Dylech dderbyn copïau yn fuan ar ôl cyhoeddi'r gofrestr honno. Dylech hefyd gael unrhyw ddiwygiadau pellach y gellir eu gwneud i'r gofrestr, gan gynnwys drwy'r hysbysiadau newid etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.[6]

1.23 Pan wneir cais ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, bydd gan ymgeiswyr hawl i gael copi am ddim o'r gofrestr lawn ar gyfer yr ardal etholiadol y maent yn sefyll ynddi.[7]

1.24 Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn gyfrifol am dderbyn ceisiadau a darparu copi o'r gofrestr a rhestrau o bleidleiswyr absennol i ymgeiswyr.[8]

1.25 Heblaw am rai eithriadau cyfyngedig rhagnodedig, ni ddylai unrhyw fersiwn o'r gofrestr nac unrhyw restrau pleidleisio absennol a gyhoeddwyd, neu a ddarperir fel arall, gynnwys data sy'n ymwneud ag unigolion dan 16 oed.[9] Mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, mae'r eithriadau lle gellir datgelu'r data fel a ganlyn:

- i'r unigolyn ei hun neu i rywun y mae wedi'i benodi'n ddirprwy i bleidleisio ar ei ran[10]
- at ddiben ymchwiliad troseddol neu achos troseddol yn ymwneud â chofrestru etholwyr neu gynnal etholiadau[11]
- i Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn perthynas â chofrestru etholwyr neu gynnal etholiadau[12]

1.26 Yr unig eithriad arall yw y gellir, cyn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru, ddatgelu'r wybodaeth am yr unigolion hynny dan 16 oed **a fydd yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad** (h.y. a fydd yn cyrraedd 16 oed cyn neu ar y diwrnod pleidleisio) at ddiben yr etholiad neu mewn perthynas ag ef, yn y gofrestr etholiadol, rhestr y pleidleiswyr post, y rhestr o ddirprwyon a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post, a gyflenwir i'r canlynol:

- Ymgeiswyr mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru at ddibenion etholiadol
- Y Swyddog Canlyniadau at ddibenion etholiad llywodraeth leol yng Nghymru

1.27 Ni ddylai'r wybodaeth a roddir cyn etholiad gynnwys dyddiadau geni nac unrhyw beth arall a fyddai'n nodi bod pleidleisiwr dan 16 oed.[13]

- Ni ddylid rhoi unrhyw wybodaeth am unigolion dan 16 oed i unrhyw unigolion na chyrff eraill.

1.28 Ceir rhagor o ganllawiau ar ddarparu data am unigolion dan 16 oed yn yr adran Cael gafael ar y gofrestr etholiadol, a'i darparu yn ein canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

A Ceir gwybodaeth fanwl am sut y gall ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol cofrestredig (a all ofyn am gopi unrhyw bryd) ac eraill gael gafael ar y gofrestr etholiadol lawn a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol, a sut y gellir eu darparu iddynt, yn ein canllawiau Cael gafael ar y gofrestru etholiadol, a'i darparu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Mae'r Comisiwn wedi llunio ffurflenni cais templed cofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol y gall ymgeiswyr eu defnyddio.

Anghenion mynediad i ymgeiswyr

1.29 Dylech gofio bod gan ymgeiswyr ac asiantiaid o bosibl anghenion mynediad penodol, ac felly efallai y bydd angen unrhyw wybodaeth neu ganllawiau arnynt a luniwyd ar ffurf print bras neu fformat arall, megis Braille neu sain, neu mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg.

2 Y broses enwebu

Rhydd y bennod hon ganllawiau ar weinyddu'r broses enwebu yn yr etholiadau llywodraeth leol rydych yn gyfrifol amdanynt fel Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol..

2.1 Gellir cyflwyno enwebiadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol naill ai:

- Drwy gyflwyno ffurflen copi caled i'r Swyddog Canlyniadau; neu
- Yn electronig yn unol â'r trefniadau y mae'r Swyddog Canlyniadau wedi'u nodi yn y Datganiad ar Gyflwyno'n Electronig Ceir canllawiau ar y Datganiad ar Gyflwyno'n Electronig isod ym mharagraff 2.8

2.2 Dim ond ar gyfer yr ymgeisydd y mae cwestiynau ynghylch cymhwysedd neu anghymhwysedd ac ni ddylech roi cyngor ar faterion o'r fath. Dylid cyfeirio'r ymgeisydd at ganllawiau'r Comisiwn i ymgeiswyr ac asiantiaid yn y lle cyntaf. Os bydd ganddo unrhyw bryderon pellach, dylid ei gynghori i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

2.3 Dim ond ar gyfer yr ymgeisydd y mae cwestiynau ynghylch cymhwysedd neu anghymhwysedd ac ni ddylech roi cyngor ar faterion o'r fath. Dylid cyfeirio'r ymgeisydd at ganllawiau'r Comisiwn i ymgeiswyr ac asiantiaid yn y lle cyntaf. Os bydd ganddo unrhyw bryderon pellach, dylid ei gynghori i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

Ffurflenni enwebu

2.4 Dim ond os bydd wedi derbyn y ffurflenni canlynol wedi eu llenwi erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad yr ystyrir bod ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys:

- y papur enwebu[14]
- ffurflen cyfeiriad cartref[15]

2.5 Er mwyn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, mae'n rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru.[16] Bydd hefyd angen i'r ymgeisydd gyflwyno:

• tystysgrif awdurdodi sy'n rhoi awdurdod i ddefnyddio enw'r blaid gofrestredig neu ddisgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio.[17]

• Rhaid i enw neu ddisgrifiad y blaid a awdurdodir gan y dystysgrif gyfateb i enw neu ddisgrifiad y blaid ar y ffurflen enwebu neu bydd yr enwebiad cyfan yn annilys.

• Os nad yw enw'r blaid gofrestredig eisoes yn cynnwys Cymru / Cymreig / Wales / Welsh[18], yna gall yr ymgeisydd ddewis ategu enw'r blaid gofrestredig fel y'i nodir ar y dystysgrif drwy nodi Cymru / Cymreig / Wales / Welsh.[19]

• Gellir hefyd ddefnyddio Cymru / Cymreig / Wales / Welsh gydag enw'r blaid gofrestredig, os yw'r enw'n rhan o ddisgrifiad cofrestredig, a awdurdodir gan y dystysgrif.

• cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y blaid (os dymunir gwneud hynny)[20]

2.6 Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio'r ffurflen enwebu a luniwyd ac a roddwyd gennych chi[21], ond rhaid i'r ffurflen a ddefnyddir fod yn y ffurf a bennir yn y ddeddfwriaeth neu mewn ffurf debyg [22]

2.7 Dim ond yn Gymraeg a/neu Saesneg y gellir llunio papurau enwebu, ac nid mewn unrhyw ieithoedd neu fformatau amgen.[23] Fodd bynnag, mae'n ofynnol i chi baratoi papurau enwebu i'w llofnodi os bydd rhywun yn gwneud cais am hynny.[24] Dylid cynnwys gwybodaeth mewn unrhyw becynnau a anfonir, gan gyfeirio at y wybodaeth a geir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig am y trefniadau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu drwy e-bost neu ar-lein. Er enghraifft, gallech gynnwys geiriad sy'n nodi'n glir y gellir cyflwyno papurau enwebu yn electronig, ond mai dim ond os bodlonir y gofynion penodol a bennir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig o ran ffurf a dull cyflwyno y cânt eu derbyn.

A Rydym wedi llunio set o bapurau enwebu ar gyfer etholiadau prif ardaloedd yng Nghymru, ac etholiadau cyngor cymuned yng Nghymru sy'n cynnwys yr holl ffurflenni sydd eu hangen i sefyll etholiad.

Rydym hefyd wedi llunio rhestr wirio er mwyn eich helpu i brosesu ffurflenni enwebu mewn etholiadau prif ardaloeddetholiadau prif ardaloedd ac etholiadau cyngor cymuned.

Datganiad ar Gyflwyno'n Electronig

2.8 Bydd angen i chi fanylu ar y trefniadau rydych wedi eu rhoi ar waith i reoli enwebiadau electronig ar ddatganiad ar gyflwyno'n electronig, y dylid ei gynnwys gyda'r hysbysiad etholiad.

2.9 Gellir cyflwyno papurau enwebu yn electronig drwy:

- eu hanfon yn electronig i gyfeiriad e-bost yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad[25]
- eu cyflwyno'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad [26]

2.10 Dylech nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cyflwyno enwebiadau'n electronig yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig. Er enghraifft, y cyfeiriad(au) e-bost penodol y dylid ei ddefnyddio/eu defnyddio, unrhyw gyngor ar sut y dylid labelu negeseuon e-bost neu unrhyw ofynion ynghylch fformat atodiadau, ac ati. Ceir canllawiau ar gynllunio ar gyfer rheoli enwebiadau electronig yma.

2.11 Gallwch weld hysbysiad etholiad enghreifftiol sy'n cynnwys y datganiad ar gyflwyno'n electronig sy'n nodi rhywfaint o'r wybodaeth y dylech ystyried ei chynnwys yma

Gwiriadau anffurfiol

2.12 Dylech sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu ymgeiswyr gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol.

2.13 Dylid rhoi cyfle cyfartal i bob ymgeisydd allu cael gwiriad anffurfiol. Diben gwiriadau anffurfiol yw helpu ymgeiswyr i gymryd rhan effeithiol yn y broses etholiadol fel na fydd unrhyw wallau a wneir ganddyn nhw neu eu hasiant wrth gwblhau'r gwaith papur yn golygu na chaiff etholwyr gyfle i bleidleisio drostynt, os yw hynny'n bosibl. Dylech roi cyfrif am nifer mawr posibl o ymgeiswyr ac ystyried sut y byddwch yn rheoli'r broses hon, er enghraifft drwy roi system apwyntiadau ar waith, a/neu gynnig y cyfle i wiriadau gael eu cynnal o bell.

2.14 Os byddwch yn cynnig gwiriadau anffurfiol o bell, dylech sicrhau eich bod yn nodi'r broses yn glir wrth gyfathrebu ag ymgeiswyr, er mwyn lleihau'r risg y caiff enwebiad ei gyflwyno drwy gamgymeriad yn hytrach na'i gyflwyno am wiriad anffurfiol.

2.15 Wrth gynnal gwiriad anffurfiol dylid nodi'n glir bod y papurau enwebu yn cael eu hystyried yn anffurfiol. Os byddwch yn cynnig gwiriadau anffurfiol o bell, dylech roi cyfeiriad e-bost i'w ddefnyddio'n benodol i anfon enwebiad am wiriad anffurfiol.

2.16 Ar ddiwedd y gwiriad anffurfiol, dylech gynnig dychwelyd y papurau enwebu os oes problem wedi ei nodi. Efallai y byddwch am gofnodi unrhyw gyngor y byddwch yn ei roi i'r ymgeisydd i unioni unrhyw faterion a nodwyd.

2.17 Os na nodwyd unrhyw broblemau, dylech gynnig eu derbyn yn ffurfiol. O ran ffurflenni enwebu a gyflwynir yn electronig, dylech ofyn am i'r ffurflenni bellach gael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig..

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod cyfle'n codi i bapurau enwebu ymgeiswyr gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i wirio papurau enwebu ymgeiswyr yn anffurfiol cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol.

Cyflwyno papurau enwebu

2.18 Gallwch dderbyn enwebiadau a gyflwynir â llaw neu drwy'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig.

2.19 Eich cyfrifoldeb chi fel Swyddog Canlyniadau yw sicrhau bod ymgeiswyr sydd am gyflwyno enwebiadau'n electronig yn gallu gwneud hynny yn y ffordd rydych wedi ei nodi yn eich datganiad ar gyflwyno'n electronig, a gaiff ei gynnwys gyda'r hysbysiad etholiad. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod yr adnoddau TG i gefnogi'r broses o gyflwyno enwebiadau'n electronig ar waith drwy gydol y cyfnod enwebu, er enghraifft y gallu i dderbyn y nifer cynyddol o atodiadau e-bost mawr a allai gael eu hanfon atoch, neu gadw llygad ar ffolderi e-bost sothach yn ystod y cyfnod enwebu, er enghraifft. Dylai eich cynlluniau wrth gefn hefyd nodi'r trefniadau ar gyfer adfer mewn trychineb os na fydd y gwasanaeth ar gael neu os bydd unrhyw broblemau technegol gyda'ch systemau TG yn ystod y cyfnod enwebu. .

Adeg cyflwyno

2.20 Fel Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol, chi fydd yn penderfynu pryd i dderbyn enwebiadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad.

2.21 Rhaid i chi nodi ar yr hysbysiad etholiad yr adegau y byddwch yn caniatáu i enwebiadau gael eu cyflwyno â llaw [27]ac yn unol â'r trefniadau sydd gennych ar waith ar gyfer cyflwyno enwebiadau'n electronig. [28]

2.22 Gallwch ddechrau derbyn enwebiadau ar yr un diwrnod ag y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad, gan roi mwy o amser i ymgeiswyr gyflwyno eu papurau enwebu, neu gallwch ddechrau derbyn enwebiadau ar y diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad.

2.23 Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais.[29] Ni ellir newid nac ymestyn y terfyn amser hwn am unrhyw reswm, heblaw os bydd terfysg neu drais agored yn tarfu ar y broses enwebu, sy'n annhebygol. [30] Ystyrir bod enwebiad wedi'i gyflwyno pan fydd y papurau enwebu wedi'u cyflwyno, naill ai yn y man a nodir yn yr hysbysiad neu yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig.

2.24 Rhaid i chi gael tystysgrif awdurdodi neu gais am arwyddlun yn ystod y cyfnod ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

2.25 Nid oes angen trefnu apwyntiad i gyflwyno papurau enwebu â llaw. Fodd bynnag, dylech ystyried sut y byddwch yn rheoli'r nifer posibl o enwebiadau a ddaw i law. Gallai hyn gynnwys:

- cynnig apwyntiadau ar gyfer gwiriadau anffurfiol a chyflwyno'r papurau enwebu'n ffurfiol â llaw
- nodi dulliau electronig ar gyfer cynnal gwiriadau anffurfiol a chyflwyno papurau enwebu

2.26 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau y caiff ei bapurau enwebu eu cyflwyno yn y ffordd gywir ac erbyn y terfyn amser gofynnol, p'un a fydd yn eu cyflwyno â llaw neu'n electronig. Os na chyflwynir set gyflawn o bapurau enwebu erbyn yr amser hwnnw, ni fydd yr enwebiad wedi'i wneud, sy'n golygu na allwch ddyfarnu bod yr enwebiad yn ddilys nac yn annilys.[31]

2.27 Rhaid i chi sicrhau bod eich systemau TG yn cofnodi'r amser y daw negeseuon e-bost sy'n cynnwys papurau enwebu neu enwebiadau a gyflwynir drwy system ar-lein i law, er mwyn sicrhau bod hynny yn unol â'r terfyn amser gofynnol.[32]

Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

2.28 Rhaid i'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref gael eu cyflwyno naill ai:

- â llaw[33] neu
- yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig[34]

2.29 Os caiff dogfen ei chyflwyno â llaw, rhaid i **fersiwn wreiddiol** pob dogfen a gwblhawyd gael ei chyflwyno[35]. Gall cyflwyno â llaw gynnwys defnyddio gwasanaeth cludo.

2.30 Os caiff dogfen ei chyflwyno'n electronig, gall y ddogfen fod wedi'i llofnodi'n electronig – er enghraifft ar ffurf llofnod wedi'i deipio.

2.31 Dylech gymryd camau i gyfleu'r gofynion sy'n ymwneud â chyflwyno papurau enwebu i'r holl ddarpar ymgeiswyr ac asiantiaid, a sicrhau y caiff y gofynion hyn eu hamlygu mewn unrhyw bapurau briffio lleol neu ganllawiau a gaiff eu llunio gennych.

2.32 Gellir cyflwyno tystysgrifau awdurdodi a ffurflenni cais am arwyddlun â llaw, drwy'r post, neu'n electronig.

Etholiadau cyngor cymuned

Mewn etholiadau cyngor cymuned, dylech ystyried cydweithio â'r clerc a all efallai helpu i gyfleu'r hyn sy'n ofynnol o ran cyflwyno enwebiadau i ddarpar ymgeiswyr a helpu i ddosbarthu papurau enwebu, os oes angen.

Pwy all gyflwyno papurau enwebu?

2.33 Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all gyflwyno papurau enwebu boed hynny â llaw neu'n electronig. Fodd bynnag, dylech gynghori ymgeiswyr y dylen nhw, eu hasiant, neu rywun maent yn ymddiried ynddo wneud hyn, fel y gallant sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno ar amser

Enwebiadau a gyflwynir â llaw

2.34 Rhaid i bapurau enwebu na chânt eu cyflwyno'n electronig gael eu cyflwyno â llaw yn y lleoliad a nodwyd gennych yn yr hysbysiad etholiad.[36] Rhaid i'r lleoliad a ddewiswch fod yn y swyddfeydd cyngor perthnasol.[37]

2.35 Dylai'r lleoliad ar gyfer cyflwyno papurau enwebu â llaw a nodir ar yr hysbysiad etholiad fod yn fanwl gywir, a dylai gynnwys unrhyw enw neu rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser.

Etholiadau cyngor cymuned

Mewn etholiadau cyngor cymuned nid yw'r lleoliad y mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu iddo wedi'i ragnodi a mater i chi benderfynu arno ydyw.

2.36 Dylech ddarparu arwyddion clir o fynedfa'r adeilad i'r ystafell a neilltuwyd ar gyfer cyflwyno'r papurau. Dylai'r ffordd hon, neu ffordd amgen wedi ei harwyddo'n briodol, fod yn hollol hygyrch.

2.37 Dylech chi neu ddirprwy penodedig fod yn bresennol drwy gydol y cyfnod ar gyfer enwebiadau a dim ond chi a'ch staff ddylai ddelio ag enwebiadau. Dylech roi manylion i staff awdurdod lleol eraill, megis staff derbynfa, am beth i'w wneud os bydd rhywun yn ceisio rhoi papurau enwebu iddynt, gan nodi'n glir na ddylent ddelio â phapurau enwebu ac na ddylid cynnig eu derbyn ond yn hytrach eu cyfeirio atoch chi.

2.38 Os caiff papur enwebu ei gyflwyno â llaw, rhaid i **fersiwn wreiddiol** pob dogfen a gwblhawyd gael ei chyflwyno.

2.39 Pan fydd papur enwebu wedi'i gyflwyno'n ffurfiol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau iddo (yn dibynnu ar eich pŵer i gywiro mân wallau).[38]

2.40 Felly, pan gaiff papur ei gyflwyno'n ffurfiol, dylech ei arnodi â'r dyddiad a'r amser cyflwyno, fel bod gennych gofnod o pryd y cyflwynwyd bob papur yn ffurfiol.

Beth i'w wneud os caiff papurau enwebu eu hanfon drwy'r post

2.41 Os caiff ffurflenni enwebu neu ffurflenni cyfeiriad cartref eu hanfon drwy'r post, nid ystyrir eu bod wedi'u 'cyflwyno' yn unol â'r rheolau.[39] Felly, nid ystyrir bod yr ymgeisydd wedi'i enwebu ac ni ellir penderfynu a yw'r papurau yn ddilys.[40]

2.42 Dylai fod gennych brosesau ar waith i fonitro unrhyw bost a anfonir i'r lle dynodedig ar gyfer cyflwyno ffurflenni enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref, fel y gellir nodi unrhyw bapurau a ddaw i law yn gyflym a chymryd camau i geisio cysylltu â'r ymgeisydd.

2.43 Dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd gan ddefnyddio'r manylion ar y ffurflen cyfeiriad cartref a'i hysbysu na ellir derbyn y ffurflen enwebu na'r ffurflen cyfeiriad cartref drwy'r post a bod angen iddo ef/hi (neu rywun ar ei ran) ddod i'r lleoliad dynodedig ar gyfer derbyn ffurflenni enwebu, o fewn yr amseroedd a nodir ar yr hysbysiad etholiad, er mwyn 'cyflwyno'r' ffurflen enwebu a'r ffurflen cydsynio ag enwebiad â llaw, yn unol â'r rheolau. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod hyn yn cael ei wneud erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau. Ni chaniateir i chi na'ch staff gyflwyno'r ffurflenni i'r ymgeisydd.

2.44 Ni fydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno papurau enwebu 'newydd' a dylech gadw unrhyw bapurau enwebu a gewch drwy'r post fel y gall eu casglu a'u cyflwyno i chi â llaw neu'n electronig.

2.45 Gellir anfon y dystysgrif awdurdodi (os yw'n gymwys) a'r cais am arwyddlun (os yw'n gymwys) drwy'r post, ond gellir hefyd eu cyflwyno gyda'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref. Dylai fod gennych brosesau ar waith i fonitro unrhyw bost a anfonir i'r lle dynodedig ar gyfer cyflwyno ffurflenni enwebu a ffurflenni cydsynio ag enwebiad, fel y gellir nodi unrhyw dystysgrifau awdurdodi a cheisiadau am arwyddluniau a ddaw i law yn y ffordd honno yn gyflym.

Enwebiadau a gyflwynir yn electronig

2.46 Eich cyfrifoldeb chi fel Swyddog Canlyniadau yw sicrhau bod ymgeiswyr sydd am gyflwyno enwebiadau'n electronig yn gallu gwneud hynny yn y ffordd rydych wedi ei nodi yn eich datganiad ar gyflwyno'n electronig, a gaiff ei gynnwys gyda'r hysbysiad etholiad.

2.47 Dylech fod yn fodlon y caiff enwebiadau eu trin fel enwebiadau a gyflwynwyd yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n

electronig, er enghraifft drwy'r cyfeiriad e-bost penodol a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig neu drwy borth ar-lein, os oes un ar gael.

2.48 Er mwyn gwneud hyn, dylech sicrhau bod yr adnoddau TG i gefnogi'r broses o gyflwyno enwebiadau'n electronig ar waith ac yn weithredol drwy gydol y cyfnod enwebu. Er enghraifft, dylech sicrhau bod digon o gapasiti storio mewn mewnflychau e-bost a bod cynlluniau wrth gefn, yn cynnwys prosesau adfer mewn trychineb ar waith sy'n cynnwys yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai unrhyw fethiant o ran y systemau TG neu broblemau tebyg yn ystod y cyfnod enwebu ac yn arbennig o agos i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

2.49 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau y caiff ei enwebiad ei gyflwyno'n unol â'r gofynion. O ran enwebiadau electronig a gyflwynir drwy e-bost, mae hyn yn golygu y caiff ei dderbyn gan weinydd y cyfeiriad e-bost penodol a nodwyd ar gyfer cyflwyno enwebiadau erbyn y terfyn amser.

2.50 Ni allwch ystyried bod enwebiad wedi'i gyflwyno erbyn y terfyn amser dim ond ar y sail ei fod wedi'i anfon erbyn y terfyn amser hwnnw - rhaid i chi dderbyn yr enwebiad mewn gwirionedd fel Swyddog Canlyniadau erbyn y terfyn amser er mwyn iddo fod yn ddilys. Er enghraifft, nid yw prawf bod e-bost wedi'i anfon erbyn y terfyn amser yn brawf bod enwebiad wedi'i gyflwyno erbyn y terfyn amser.

2.51 Dylech gadarnhau bod enwebiad electronig wedi'i gyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddod i law, er mwyn hysbysu'r ymgeisydd ei fod wedi'i gyflwyno'n ffurfiol.

2.52 Er mwyn rheoli disgwyliadau, dylech fod yn glir wrth gyfathrebu ag ymgeiswyr ac asiantiaid nad yw cyflwyno papur enwebu yn electronig yn golygu bod penderfyniad wedi'i wneud yn ei gylch eto. Gallech greu swyddogaeth ymateb awtomataidd ar gyfer negeseuon e-bost a anfonir i'r cyfrif e-bost penodol a nodwyd gennych ar gyfer cyflwyno enwebiadau'n ffurfiol, er mwyn hysbysu ymgeiswyr ac asiantiaid bod yr enwebiad wedi dod i law, ond nad oes penderfyniad wedi'i wneud yn ei gylch eto, ac y caiff hysbysiad ar wahân ei anfon ynghylch ei ddilysrwydd. Os yw'n ymarferol, gallech hefyd ddefnyddio'r ymateb awtomataidd hwn i roi syniad o'r amserlen debygol.

2.53 Pan fydd papur enwebu wedi'i gyflwyno'n ffurfiol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau iddo (yn dibynnu ar eich pŵer i gywiro mân wallau).[41] Er mwyn sicrhau y caiff papurau enwebu a gyflwynir yn electronig eu cyflwyno yn unol â'r terfyn amser, rhaid i chi sicrhau bod unrhyw system gyfrifiadurol a ddefnyddir gennych yn cofnodi'r amser y daw papurau i law. Os bydd ymgeisydd yn penderfynu wedi hynny ei fod am wneud unrhyw newidiadau, dylai dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl a chyflwyno papurau enwebu newydd o fewn yr amserlen statudol.

Beth i'w wneud os caiff papurau enwebu eu cyflwyno i gyfeiriad e-bost anghywir

2.54 Os caiff ffurflenni enwebu neu ffurflenni cyfeiriad cartref eu hanfon i gyfeiriad e-bost gwahanol i'r hyn a nodwyd yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig, nid ystyrir eu bod wedi'u 'cyflwyno' yn unol â'r rheolau. [42] Felly, ni ellir penderfynu a yw'r papurau'n ddilys.[43]

2.55 Dylai fod gennych brosesau ar waith i fonitro cyfeiriadau e-bost a allai fod yn gysylltiedig â'r Swyddog Canlyniadau neu'r gwasanaethau etholiadol y gallai papurau enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref gael eu hanfon iddynt drwy gamgymeriad, fel y gellir nodi unrhyw bapurau a ddaw i law yn gyflym a chymryd camau i geisio cysylltu â'r ymgeisydd. Dylech hefyd ystyried sut i hysbysu timau eraill yn y cyngor y dylent gysylltu â chi cyn gynted â phosibl os byddant yn cael unrhyw negeseuon e-bost ynghylch y broses enwebu.

2.56 Dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd gan ddefnyddio'r manylion ar y ffurflen cyfeiriad cartref a'i hysbysu na ellir derbyn y ffurflen enwebu na'r ffurflen cyfeiriad cartref oni chânt eu cyflwyno i'r cyfeiriad e-bost dynodedig ar gyfer cyflwyno ffurflenni enwebu. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod hyn yn cael ei wneud erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

Cyflwyno ffurflenni enwebu lluosog

2.57 Os daw mwy nag un ffurflen i law yr ymddengys ei bod yn ffurflen enwebu sydd wedi'i llofnodi gan yr un ymgeisydd, dylech ofyn i'r ymgeisydd gadarnhau pa un o'r ffurflenni hyn yw'r un gywir. Os na all yr ymgeisydd wneud hyn neu os na fydd yn gwneud hyn, dylech benderfynu drosoch chi eich hun pa un yw'r ffurflen gywir. Dim ond y ffurflen gywir y dylid asesu ei dilysrwydd a dim ond y manylion ar y ffurflen hon y dylid eu hychwanegu at y datganiad o'r personau a enwebwyd a'r papur pleidleisio.

2.58 Os cyflwynir mwy nag un ffurflen enwebu ac mae un o'r ffurflenni enwebu'n annilys, caiff y ffurflen honno ei heithrio o'r ffurflenni y gallwch chi neu'r ymgeisydd eu dewis. Cyhyd â bod o leiaf un ffurflen enwebu yn ddilys, gellir enwebu'r ymgeisydd yn ddilys.

Gohirio'r broses enwebu

2.59 Os bydd terfysg neu drais agored yn tarfu ar y broses enwebu neu'n ei rhwystro ar unrhyw ddiwrnod, rhaid i chi ohirio'r broses enwebu y diwrnod hwnnw. [44]

2.60 Os caiff y broses enwebu ei gohirio ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, rhaid i chi ailddechrau'r broses drannoeth. [45] Yn yr achos hwn, rhoddir diwrnod ychwanegol i gyflwyno hysbysiadau tynnu enw yn ôl a chyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd. [46]

Gofynion enwebu

2.61 Mae'r adran hon yn cynnwys esboniad o'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ar y papurau enwebu a gyflwynir gan neu ar ran yr ymgeisydd. Bwriedir iddi eich helpu i adolygu ac yn y pen draw benderfynu ar ddilysrwydd y papurau enwebu.

2.62 Nid oes angen talu unrhyw ernes mewn etholiadau prif ardaloedd nac etholiadau cyngor cymuned.

2.63 Dylech atgoffa unrhyw un sy'n cyflwyno'r papurau enwebu ei bod yn drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol ar bapurau enwebu.[47] Os yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylech gyfeirio at y ffaith bod y drosedd hefyd yn gymwys os yw ymgeisydd wedi rhoi enw a ddefnyddir yn gyffredin nad yw mewn gwirionedd yn ei ddefnyddio'n gyffredin.[48] Cewch rybuddio ymgeiswyr mai'r gosb am ddatganiad anwir yw dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at flwyddyn o garchar.[49]

Ffurflen enwebu

Enwau ymgeiswyr

2.64 Rhaid i enwau llawn yr ymgeisydd gael eu rhestru ar y ffurflen enwebu, gyda'i gyfenw yn gyntaf wedyn ei holl enwau eraill yn llawn.[50]

2.65 Nid yw'r ffurflen enwebu ragnodedig yn cynnwys unrhyw le ar gyfer rhagddodiaid nac ôl-ddodiaid.

2.66 Dylid cynghori ymgeiswyr i beidio â defnyddio rhagddodiaid fel Mr, Mrs, Dr neu Y Cyngh, nac ôl-ddodiaid, yn y maes ar y ffurflen enwebu sy'n gofyn am enw llawn. Os caiff rhagddodiad neu ôl-ddodiad ei ddefnyddio fel rhan o'r enw gwirioneddol, ni fyddai'r ffurflen enwebu yn annilys o ganlyniad i hynny, ond ni ddylid trosglwyddo'r rhagddodiad na'r ôl-ddodiad i'r datganiad o'r personau a enwebwyd. Os bydd ymgeisydd wedi cyflwyno ffurflen enwebu gyda rhagddodiad neu ôl-ddodiad fel rhan o'i enw gwirioneddol, dylech hysbysu'r ymgeisydd a'i asiant na fydd yn ymddangos ar y datganiad o'r personau a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio na'r papur pleidleisio, ond nad yw hyn wedi effeithio ar ei enwebiad fel ymgeisydd.

2.67 Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd deitl, gall ddefnyddio hwn fel ei enw llawn. Er enghraifft, os mai enw gwirioneddol yr ymgeisydd yw Joseph Smith, ond mai ei deitl etifeddol yw Joseph Avon, gall ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel ei enw llawn.

Enwau a ddefnyddir yn gyffredin

2.68 Pan fydd ymgeisydd yn defnyddio enw gwahanol mewn unrhyw ffordd i'w enw gwirioneddol a ddefnyddir yn gyffredin, gall ofyn am gael defnyddio ei enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin yn lle ei enw gwirioneddol.[51]

2.69 Gall ymgeisydd ofyn am gael defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin. Er enghraifft, efallai mai ‘Andy’ yw'r enw cryno a ddefnyddir ar ei gyfer, yn hytrach na'i enw llawn cyntaf, sef ‘Andrew’. Os felly, gall ysgrifennu ‘Andy’ yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin ar y ffurflen enwebu os byddai'n well ganddo i'r enw hwnnw ymddangos ar y papur pleidleisio. At hynny, os mai rhan yn unig o enw llawn ymgeisydd a ddefnyddir yn gyffredin ar ei gyfer, gall adlewyrchu hyn ar y papur enwebu. Er enghraifft, gall ymgeisydd o'r enw ‘Jane Angela’ sy'n cael ei hadnabod yn gyffredin fel Angela, ysgrifennu ‘Angela’ yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin ar y ffurflen enwebu os byddai'n well ganddi i'r enw hwnnw yn unig ymddangos ar y papur pleidleisio.

2.70 Caiff ymgeisydd hefyd ddefnyddio blaenlythrennau fel rhan o'u henw a ddefnyddir yn gyffredin os cânt eu defnyddio'n fynych mewn perthynas â nhw.

2.71 Nid eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu a yw'r enw a ddefnyddir yn gyffredin yn ‘enw’ y mae'r ymgeisydd yn ei ddefnyddio'n gyffredin. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i chi dderbyn beth bynnag y bydd ymgeisydd wedi'i nodi yn y blwch enw a ddefnyddir yn gyffredin ar ei olwg a'i dderbyn fel enw cyffredin yr ymgeisydd.

2.72 Yn ôl y gyfraith, yr unig seiliau sydd gennych ar gyfer gwrthod enw a ddefnyddir yn gyffredin yw'r rhai canlynol:

- mae'n debygol y gall ei ddefnydd gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu
- mae'n aflan neu'n sarhaus[52]

2.73 Os cyflwynir ffurflen enwebu i chi yn ystod cam archwilio anffurfiol sydd wedi'i chwblhau mewn modd sy'n awgrymu nad yw'r enw a ddefnyddir yn gyffredin yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, dylech dynnu sylw'r ymgeisydd at ddiffiniad cyfreithiol enw a ddefnyddir yn gyffredin a nodi ei bod yn drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol ar ffurflen enwebu. Dylech hefyd nodi os na chaiff ffurflen enwebu ei chwblhau yn unol â'r gyfraith, y bydd yr ymgeisydd yn wynebu risg o gael ei herio os caiff ei ethol.[53]

2.74 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod wedi cwblhau ei bapur enwebu yn unol â'r gyfraith a bod yn fodlon bod yr enw a ddefnyddir yn gyffredin a roddwyd yn enw a ddefnyddir yn gyffredin ganddo mewn gwirionedd.

2.75 Wrth roi cyngor anffurfiol, efallai yr hoffech dynnu sylw'r ymgeisydd at Rannau 2a neu 2b o'n canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ar enwau a ddefnyddir yn gyffredin mewn etholiadau prif ardaloedd llywodraeth leol ac etholiadau cyngor cymuned (fel sy'n briodol).

2.76 Mae'r tabl isod yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gyfuniadau amrywiol o enwau a ddefnyddir yn gyffredin a sut y byddai hyn yn effeithio ar ymddangosiad enw'r ymgeisydd ar y datganiad o'r personau a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio a'r papur pleidleisio:

Cyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd	Enwau gwirioneddol eraill yr ymgeisydd yn llawn	Enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin	Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin	Enw i'w nodi ar y datganiad o'r personau a enwebwyd a'r hysbysiad pleidleisio	Enw i'w nodi ar y papurau pleidleisio
Etholwr	Ann	Elsie	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Elsie	PLEIDLEISIWR, Elsie
Etholwr	Ann	[Gwag]	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Ann	PLEIDLEISIWR, Ann
Etholwr	Elsie Ann	Elsie	[Gwag]	Etholwr, Elsie	ETHOLWR, Elsie

2.77 Os caiff y blwch ar gyfer enwau cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin ei adael yn wag, yna bydd enwau cyntaf neu gyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd, yn dibynnu ar ba flwch ar gyfer enwau a ddefnyddir yn gyffredin a adawyd yn wag, yn mynd ar y datganiad o'r personau a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio ac ar y papur pleidleisio.

2.78 Dylech gynghori'r ymgeisydd bod y defnydd o enwau cyffredin ond yn gymwys i'r datganiad o'r personau a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio a'r papur pleidleisio. Dylai enw gwirioneddol yr ymgeisydd ymddangos ar unrhyw ddogfennau y mae'n ofynnol iddynt ddangos enw'r ymgeisydd, fel yr argraffnod a ffurflenni gwariant yr ymgeisydd.

2.79 Os byddwch yn gwrthod defnyddio enw a ddefnyddir yn gyffredin, ni fydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y ffurflen enwebu.[54] Yn hytrach, effaith hyn fydd y bydd enw gwirioneddol yr ymgeisydd yn ymddangos ar y datganiad o'r personau a enwebwyd, yr hysbysiad pleidleisio a'r papur pleidleisio.[55] Dylid egluro hyn i ymgeiswyr ac asiantiaid a rhaid i chi ysgrifennu at yr ymgeisydd yn nodi'r rhesymau dros wrthod caniatáu i'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gael ei ddefnyddio[56].

Disgrifiad

2.80 Pan fydd ymgeisydd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol, gall ddefnyddio enw plaid gofrestredig neu ddisgrifiad cofrestredig. I gael rhagor o wybodaeth am ddisgrifiadau pleidiau, gweler **2.92**

Datganiad o aelodaeth plaid

2.81 Rhaid i'r ymgeisydd gynnwys datganiad o aelodaeth plaid ar ei bapur enwebu. [57] Rhaid i'r datganiad nodi a fu'r ymgeisydd yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod perthnasol.

2.82 Y cyfnod perthnasol yw 12 mis, sy'n dod i ben ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad etholiad. [58]

2.83 Os bu'r ymgeisydd yn aelod o unrhyw bleidiau gwleidyddol cofrestredig yn ystod y cyfnod perthnasol, rhaid iddo ychwanegu pob plaid wleidyddol gofrestredig y bu'n aelod ohoni a dyddiadau ei aelodaeth. Rhaid iddo ychwanegu enw'r blaid wleidyddol gofrestredig hyd yn oed os yw wedi dod i ben neu os nad yw'n blaid wleidyddol mwyach.[59]

2.84 Nid oes angen i'r ymgeisydd ychwanegu enw plaid wleidyddol gofrestredig y mae'n/bu'n aelod ohoni os yw wedi cynnwys disgrifiad plaid a ganiateir ar ei bapur enwebu ac nad yw wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig arall - ar wahân i'r un a nodir ar ei bapur enwebu - yn ystod y cyfnod perthnasol.

2.85 Dylech nodi mewn sesiynau briffio neu wrth gyfathrebu â darpar ymgeiswyr fel arall ei bod yn drosedd peidio â chynnwys datganiad o aelodaeth plaid ar y ffurflen enwebu yn fwriadol.

2.86 Caiff y wybodaeth a roddir ar y datganiad o aelodaeth plaid ei chynnwys ar y datganiad o'r personau a enwebwyd.

Datganiadau [60]

2.87 Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau a llofnodi'r datganiadau ar y papur enwebu sy'n nodi:[61]

- ei fod yn gymwys ar y diwrnod y mae'n cwblhau ei bapur enwebu ac ar ddiwrnod yr etholiad, i gael ei ethol yn gynghorydd

- y bydd yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon, yn ddinesydd perthnasol yr Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd tramor cymwys sy'n 18 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad.

- ei fod yn bodloni o leiaf un o'r amodau cymhwyso ar gyfer sefyll etholiad yn adran y datganiad ar y papur enwebu. Rhaid i'r ymgeisydd nodi pa un neu fwy o'r amodau cymhwyso a) – d) sy'n berthnasol iddo drwy dicio'r rhai sy'n berthnasol a rhoi llinell drwy'r rhai nad ydynt yn berthnasol.

- nad yw, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, wedi'i anghymhwyso rhag cael ei ethol yn gynghorydd

Gofyniad am lofnod

2.88 Rhaid i'r ymgeisydd lofnodi'r papur enwebu.[62] Rhaid i chi fod yn fodlon bod llofnod wedi'i ddarparu ac ni ddylech edrych y tu hwnt i wyneb y llofnod.

2.89 Ar gyfer enwebiadau a gyflwynir yn electronig, gallai llofnod electronig fod ar ffurf enw wedi'i deipio yn y blwch llofnod, er enghraifft.

Llofnod tyst

2.90 Rhaid i ymgeisydd lofnodi'r datganiad gerbron rhywun arall hefyd. [63] Dylai'r tyst fod yn bresennol pan fydd yr ymgeisydd yn llofnodi ei ddatganiad. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all fod yn dyst. Rhaid i enw llawn a chyfeiriad llawn y tyst gael ei nodi ar y ffurflen cyfeiriad cartref. [64]

2.91 Rhaid i'r person sy'n tystio i lofnod yr ymgeisydd hefyd lofnodi'r ffurflen enwebu. [65]

Cyfeiriad cartref

2.92 Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr roi eu cyfeiriad cartref ar y papur enwebu. Yn lle hynny, rhoddir y wybodaeth hon ar ffurflen cyfeiriad cartref ar wahân (**gweler paragraff 2.125 am ragor o wybodaeth**).

Defnyddio enwau pleidiau, disgrifiadau pleidiau ac arwyddluniau pleidiau

2.93 Ym mhob achos, er mwyn gallu defnyddio manylion adnabod plaid (h.y. enw, disgrifiad ac arwyddlun) rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru.[66]

2.94 Gall pleidiau gwleidyddol gofrestru hyd at 12 disgrifiad yn ddwyieithog. [67] Os bydd ymgeisydd am ddefnyddio enw plaid gofrestredig nad yw'n cynnwys 'Cymru / Cymreig / Wales / Welsh'[68], yna gall ychwanegu 'Cymru / Cymreig / Wales / Welsh'[69] ato yn y blwch disgrifiad ar y papur enwebu (gan gynnwys lle mae enw'r blaid yn rhan o'r disgrifiad cofrestredig).

2.95 Rhaid i chi sicrhau bod enw'r blaid neu'r disgrifiad a roddwyd ar y ffurflen enwebu wedi'i gofrestru ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol[70] a'i fod yn cyfateb iddi yn llwyr).[71] Os nad yw'n cyfateb, rhaid i chi wrthod yr enwebiad hwnnw.[72] Hyd yn oed os yw plaid gofrestredig yn adnabyddus, mae'n hanfodol edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol i gael union fanylion y blaid fel y'u cofrestrwyd â'r Comisiwn.

2.96 Caiff ymgeisydd ddefnyddio fersiwn Gymraeg neu fersiwn Saesneg enw'r blaid neu ddisgrifiad, neu ddwy fersiwn, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru â'r Comisiwn.

2.97 Rhestrir cyfieithiadau o enwau pleidiau ar y wefan o dan ‘enw amgen’ a rhestrir cyfieithiadau o ddisgrifiadau i'r dde o'r disgrifiad o dan ‘cyfieithiad(au)’. Os na chaiff cyfieithiad o enw plaid ei restru, neu os na chaiff cyfieithiad ei gofnodi yn erbyn disgrifiad, yna ni fydd cyfieithiad wedi'i gofrestru ac ni ellir ei ddefnyddio.

2.98 At ddibenion cynnal llwybr archwilio clir ac yn achos unrhyw heriau yn y dyfodol, dylech argraffu copi o'r rhan berthnasol o gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol sy'n dangos y disgrifiadau ac enw'r blaid pan wnaed y penderfyniad.

2.99 Gall pleidiau gwleidyddol gofrestru hyd at dri arwyddlun hefyd.[73]

2.100 Bydd ffeil Zip o ddelweddau arwyddluniau ar gael ar ein gwefan. Fodd bynnag, er bod y ffeil Zip yn adnodd a all gael ei ddefnyddio gan eich argraffydd i baratoi papurau pleidleisio, y wybodaeth ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol a ddylai gael ei defnyddio i gadarnhau pa arwyddlun i'w argraffu ar y papurau pleidleisio.

Ychwanegiadau, addasiadau, dileadau a newidiadau mewn perthynas ag enwau, disgrifiadau pleidiau ac arwyddluniau pleidiau ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol

2.101 Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu y gellir dileu unrhyw ddisgrifiadau cofrestredig neu gyflwyno disgrifiadau newydd yn lle hen rai hyd at a chan gynnwys y diwrnod cyn dyddiad gwirioneddol cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer unrhyw etholiad penodol (noder nad hwn yw'r diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ond yn hytrach y diwrnod cyhoeddi ei hun).[74] Ar ôl hynny, nid yw unrhyw newidiadau i ddisgrifiadau pleidiau neu achosion o ddileu unrhyw ddisgrifiadau pleidiau yn berthnasol ar gyfer yr etholiad hwnnw[75].

2.102 Er enghraifft, os byddwch yn penderfynu cyhoeddi eich hysbysiad etholiad cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad yn ôl y gyfraith, mae'n bosibl y gellir cyflwyno enwebiad sy'n cynnwys disgrifiad plaid gofrestredig nad yw'n ymddangos mwyach ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol. Os cafodd y disgrifiad ei ddileu ar ôl i chi gyhoeddi eich hysbysiad etholiad ond cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad, nid yw'r broses o ddileu yn berthnasol i'ch etholiad ac mae'r 'hen' ddisgrifiad yn ddilys o hyd. Mewn unrhyw amgylchiadau o'r fath, gallwch holi swyddfa leol y Comisiwn a yw'r disgrifiad a gyflwynwyd o'r blaid yn gymwys ar gyfer eich etholiad.

2.103 Dylech hefyd nodi y gall pleidiau gwleidyddol newid enw ac arwyddluniau cofrestredig eu plaid, ac ychwanegu unrhyw ddisgrifiad newydd os oeddent wedi cofrestru llai na 12 o ddisgrifiadau yn flaenorol, unrhyw bryd cyn i'r cyfnod enwebu ddod i ben.[76]

2.104 Pan fydd ymgeisydd yn ceisio cyflwyno ffurflen enwebu sy'n cynnwys disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, dylech gynghori'r ymgeisydd i beidio â'i chyflwyno'n ffurfiol, ond i'w thynnu'n ôl a'i chyflwyno unwaith y bydd y disgrifiad wedi'i gofrestru'n llwyddiannus.

2.105 Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno ei ffurflen enwebu yn ffurfiol gyda disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru eto, rhaid i chi nodi bod yr enwebiad yn

annilys ar y sail nad oedd y disgrifiad a roddwyd, pan wnaed y penderfyniad, yn cyfateb i unrhyw ddisgrifiad a oedd wedi'i gofrestru â'r Comisiwn.[77] Efallai y byddwch am gysylltu â'r Comisiwn i gael cadarnhad nad yw disgrifiad wedi'i gofrestru eto cyn gwneud eich penderfyniad. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â swyddfa leol y Comisiwn.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am bleidiau gwleidyddol, disgrifiadau cofrestredig ac arwyddluniau cofrestredig, dylech edrych ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn yn http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu â swyddfa leol y Comisiwn.

Pa ddisgrifiadau y gellir eu defnyddio?

2.106 Mae'r ddeddfwriaeth yn fanwl gywir ynghylch y defnydd o ddisgrifiadau. Os bydd ymgeisydd am gynnwys disgrifiad, dim ond y disgrifiadau canlynol y caiff eu defnyddio:

- y gair 'Annibynnol' neu 'Independent' neu'r ddau
- Disgrifiad sy'n debygol o arwain etholwyr at gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig gymwys[78] a'r disgrifiad yw enw cofrestredig y blaid neu, os yw'r blaid wedi cofrestru enw Cymraeg ac enw Saesneg, y naill enw neu'r llall, neu'r ddau[79]
- Disgrifiad cofrestredig o'r blaid neu, yn achos disgrifiad sydd wedi'i gofrestru'n Gymraeg ac yn Saesneg, y naill ddisgrifiad neu'r llall, neu'r ddau

Etholiadau cyngor cymuned

Dim ond y disgrifiad 'Annibynnol' neu 'Independent', neu'r ddau, y caiff ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol ei ddefnyddio, neu gallant adael y blwch disgrifiad yn wag.

2.107 Nodir isod enghreifftiau o'r disgrifiadau y caiff ymgeiswyr eu defnyddio ar eu papur enwebu:

- Annibynnol
- Independent
- Annibynnol/Independent
- Enw cofrestredig y blaid (Cymraeg)
- Enw cofrestredig y blaid (Saesneg)
- Enwau cofrestredig y blaid (Cymraeg a Saesneg)
- Disgrifiad cofrestredig y blaid (Cymraeg)
- Disgrifiad cofrestredig y blaid (Saesneg)

- Disgrifiadau cofrestredig y blaid (Cymraeg a Saesneg)

2.108 Os bydd ymgeisydd am ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad ohoni, rhaid i Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a awdurdodwyd i weithredu ar ei ran) awdurdodi hyn.[80] Os bydd y disgrifiad ar y ffurflen enwebu yn cyfateb i ddisgrifiad ar ein cofrestr o bleidiau gwleidyddol neu os yw'n enw plaid gofrestredig, dylid cyflwyno tystysgrif awdurdodi a roddwyd gan neu ar ran Swyddog Enwebu'r blaid, cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.[81]

2.109 Yn ogystal â'r enghreifftiau hyn uchod, os nad yw'r blaid a gofrestrwyd â'r Comisiwn[82] neu'r disgrifiad a gofrestrwyd â'r Comisiwn[83] eisoes yn cynnwys y geiriau 'Cymru/Cymreig/Wales/Welsh'[84], gall ymgeiswyr ei ategu drwy nodi 'Cymru', 'Cymreig', 'Wales' neu 'Welsh', yn y blwch disgrifiad ar y papur enwebu.

2.110 Nodir isod enghreifftiau o'r rhagddodiad neu ôl-ddodiad y caiff ymgeiswyr eu defnyddio fel rhan o enw'r blaid ar eu papur enwebu:

- Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Cymru' (Cymraeg)
- Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Cymreig' (Cymraeg)
- Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Wales' (Saesneg)
- Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Welsh' (Saesneg)
- Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Cymru' / Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Wales' (Cymraeg a Saesneg)
- 'Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Cymreig' / Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Wales' (Cymraeg a Saesneg)
- 'Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Cymreig' / Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Welsh' (Cymraeg a Saesneg)
- 'Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Cymru' / Enw'r blaid mewn disgrifiad 'Welsh' (Cymraeg a Saesneg)

- Plaid Comisiwn Etholiadol 'Cymru' (Cymraeg)
- Plaid Comisiwn Etholiadol 'Cymreig' (Cymraeg)
- 'Wales' Electoral Commission Party (English)
- 'Welsh' Electoral Commission Party (English)
- Plaid Comisiwn Etholiadol 'Cymru' / 'Wales' Electoral Commission Party (Cymraeg a Saesneg)
- Plaid Comisiwn Etholiadol 'Cymreig' / 'Welsh' Electoral Commission Party (Cymraeg a Saesneg)

Defnyddio disgrifiadau ar y cyd

2.111 Caiff ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran mwy nag un blaid gofrestredig ddefnyddio disgrifiad ar y cyd. Mae'n rhaid bod y ddwy blaid wedi'u cofrestru â'r Comisiwn. Gall y disgrifiad ar y cyd ddangos y naill neu'r llall, neu'r ddau:

- enwau cofrestredig y pleidiau ac unrhyw gysyllteiriau ac atalnodi yn Gymraeg, neu
- enwau cofrestredig y pleidiau ac unrhyw gysyllteiriau ac atalnodi yn Saesneg.

2.112 Os nad yw'r enw'r blaid a ddefnyddir yn y disgrifiad ar y cyd eisoes yn cynnwys y geiriau Cymru / Cymreig / Wales /Welsh'[85] gall ymgeiswyr ei ategu drwy nodi 'Cymru' neu 'Cymreig' ar y fersiwn Gymraeg neu drwy nodi 'Wales' neu 'Welsh' ar y fersiwn Saesneg, yn y blwch disgrifiad ar y papur enwebu. Gellir defnydio y geiriau Cymru / Cymreig / Wales / Welsh gydag un enw plaid neu bob enw plaid a ddefnyddir yn y disgrifiad ar y cyd, cyn belled nad yw'r geiriau eisioes yn ffurfio rhan o enw cofrestredig y blaid.

2.113 Mater i'r ymgeisydd yw penderfynu ym mha drefn y bydd enwau'r pleidiau yn ymddangos yn y disgrifiad ar y cyd.

2.114 Os bydd ymgeisydd yn sefyll ar ran mwy nag un blaid wleidyddol, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystysgrif awdurdodi a ddosbarthwyd gan bob un o Swyddogion Enwebu'r pleidiau (neu unigolion a awdurdodwyd i weithredu ar eu rhan) erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.[86]

2.115 Gallwch weld pwy yw Swyddog Enwebu plaid benodol drwy gyfeirio at gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, cyhyd â bod yr unigolyn sydd wedi cyflwyno'r dystysgrif yn honni ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hyn gan y Swyddog Enwebu cofrestredig, dylid derbyn y dystysgrif ar ei golwg.

2.116 Yn ymarferol, gall ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol weithiau ddarparu, ar y cyd â'u papurau enwebu, ddogfen sy'n dangos y dirprwyir pwerau i awdurdodi'r defnydd o enw neu ddisgrifiad plaid i rywun arall (a elwir weithiau'n 'dystysgrif Swyddog Enwebu Lleol' neu'n 'dystysgrif Dirprwy Swyddog Enwebu' gan y pleidiau).

2.117 Nid oes angen i'r ddogfen hon gael ei chyflwyno fel rhan o enwebiad. Nid papur enwebu mohoni ac felly nid oes mo'i hangen. Fel y cyfryw, os caiff ei chyflwyno, gellir cyflwyno copi ohoni.

2.118 Gall Swyddog Enwebu sefyll fel ymgeisydd. Os digwydd hyn, gall yr ymgeisydd, fel Swyddog Enwebu, awdurdodi ei ddisgrifiad ei hun. Gall unigolyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i gyflwyno tystysgrif awdurdodi hefyd fod yn ymgeisydd a chyflwyno tystysgrif ar gyfer ei enwebiad ei hun.

2.119 Gall tystysgrif awdurdodi alluogi'r ymgeisydd i wneud y canlynol:

- defnyddio union enw'r blaid fel y'i cofrestrwyd â'r Comisiwn
- defnyddio un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid, neu
- dewis naill ai enw'r blaid neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid

Ceisiadau am arwyddlun plaid

2.120 Os gwneir cais, gall ymgeisydd plaid gofrestredig ddewis cael arwyddlun cofrestredig y blaid y mae'n ei chynrychioli ar y papur pleidleisio.[87] Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid bod ymgeisydd wedi'i awdurdodi i ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad heblaw am 'Annibynnol' neu 'Independent'.[88]

2.121 Gall ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran mwy nag un blaid gofrestredig sy'n defnyddio disgrifiad ar y cyd ddewis defnyddio arwyddlun cofrestredig un o'r pleidiau sydd wedi awdurdodi'r defnydd o'r disgrifiad.[89] Nid oes darpariaeth ar gyfer cofrestru arwyddluniau ar y cyd â'r Comisiwn.

2.122 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd, nid yr asiant etholiad na'r Swyddog Enwebu, wneud y cais yn ysgrifenedig erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno enwebiadau fan bellaf.[90]

2.123 Os oes gan y blaid fwy nag un arwyddlun cofrestredig, dylai'r ymgeisydd nodi pa un y mae am ei ddefnyddio. Os na fydd yr ymgeisydd yn nodi arwyddlun, neu os bydd y blaid gofrestredig yn newid neu'n tynnu'r arwyddlun o'r gofrestr o bleidiau gwleidyddol ar ôl i'r papurau enwebu gael eu cyflwyno ond cyn i'r cyfnod enwebu ddod i ben, dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd a gofyn iddo ddewis arwyddlun. Dylech hefyd ddweud wrtho, os na fydd yn dewis arwyddlun penodol cyn i'r cyfnod enwebu ddod i ben, na fyddwch yn gallu argraffu arwyddlun wrth ymyl ei enw ar y papur pleidleisio.

2.124 Gall yr ymgeisydd ddarparu copi eglurder uchel o'r arwyddlun i'w ddefnyddio wrth argraffu papurau pleidleisio, neu gall ofyn i chi lawrlwytho'r arwyddlun o wefan y Comisiwn. Rhaid i chi sicrhau bod pa gopi bynnag a ddefnyddir ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig.

2.125 Y cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu sy'n pennu maint mwyaf arwyddlun ar y papur pleidleisio. Wrth ychwanegu arwyddlun plaid ar bapur pleidleisio, ni ddylid newid siâp yr arwyddlun. Rhaid i chi sicrhau bod yr arwyddlun ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig - er enghraifft, peidiwch ag ymestyn arwyddluniau yn siapiau sgwâr os nad ydynt wedi'u cofrestru fel delweddau sgwâr ar ein gwefan, oherwydd byddai hyn yn newid eu hymddangosiad.

Ffurflen cyfeiriad cartref

2.126 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau ffurflen cyfeiriad cartref, y mae'n rhaid iddi gael ei chyflwyno gyda'r papur enwebu, cyn diwedd y cyfnod enwebu. Nid yw'r ffurflen wedi'i phennu ond nodir y wybodaeth sydd ei

hangen yn ôl y gyfraith. Ar y ffurflen cyfeiriad cartref, rhaid i'r ymgeisydd nodi'r canlynol:

- ei enw llawn (gweler paragraff 2.36)[91]
- unrhyw enwau a ddefnyddir yn gyffredin, os yw'r rhain wedi'u cynnwys ar y papur enwebu[92]
- ei gyfeiriad cartref yn llawn[93]
- ei gyfeiriad cymwys, neu, os yw wedi datgan ar ei bapur enwebu ei fod yn bodloni mwy nag un o'r amodau cymhwyso, ei gyfeiriadau cymwys[94]
- pa un o'r amodau cymhwyso ar y papur enwebu y mae ei gyfeiriad neu gyfeiriadau cymwys yn ymwneud ag ef[95]
- enw llawn a chyfeiriad cartref llawn y tyst ar y papur enwebu[96]

2.127 Cyfeiriad cartref yr ymgeisydd:

- rhaid iddo gael ei gwblhau'n llawn
- ni ddylai gynnwys talfyriadau
- mae'n rhaid mai ei gyfeiriad cartref cyfredol ydyw
- ni ddylai fod yn gyfeiriad busnes (oni bai bod yr ymgeisydd yn rhedeg busnes o'i gartref)

2.128 Os bydd unrhyw ran o fanylion y cyfeiriad cartref yn anghywir neu wedi'i hepgor, ni fydd yr enwebiad yn annilys yn awtomatig os yw'r disgrifiad o'r lle yn un a ddeellir yn gyffredin (gweler hefyd baragraff **2.148** isod).

2.129 Gall ymgeisydd ofyn am i'w gyfeiriad beidio â chael ei gyhoeddi ar y datganiad o'r personau a enwebwyd, yr hysbysiad etholiad na'r papur pleidleisio.

2.130 Yn yr achos hwn, yn ogystal â chynnwys enw llawn a chyfeiriad cartref llawn yr ymgeisydd, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref gynnwys y canlynol:

- datganiad, wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd, sy'n nodi nad yw am i gyfeiriad ei gartref fod ar gael i'r cyhoedd[97]
- os yw ei gyfeiriad cartref yn y DU, enw'r ardal berthnasol lle mae ei gyfeiriad cartref [98]
- os yw ei gyfeiriad cartref y tu allan i'r DU, enw'r wlad lle mae ei gyfeiriad cartref [99]

Etholiadau cyngor cymuned

Os bydd ymgeisydd wedi gofyn am i'w gyfeiriad beidio â chael ei gyhoeddi, bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn helpu i sicrhau y bydd yn gallu cael unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol fel sydd ei angen gan glerc y gymuned.

Efallai y bydd yn briodol i chi gynghori ymgeiswyr ymlaen llaw i roi eu manylion yn uniongyrchol i glerc y gymuned er mwyn iddynt gael gohebiaeth o'r fath. Dylech drafod hyn gyda'ch tîm diogelu data.

Ystyr cyfeiriad cymwys ac ardal berthnasol

2.131 Cyfeiriad cymwys:

• pan fydd ymgeisydd wedi dewis opsiwn (a) ar y ffurflen cyfeiriad cartref, y cyfeiriad llawn lle mae wedi'i gofrestru'n etholwr llywodraeth leol

• pan fydd wedi dewis opsiwn (b) ar y ffurflen cyfeiriad cartref, cyfeiriad y tir neu'r safle hwnnw y mae wedi'i feddiannu fel perchennog neu denant, neu ddisgrifiad ohono

• pan fydd wedi dewis opsiwn (c) ar y ffurflen cyfeiriad cartref, cyfeiriad ei fan gwaith

• pan fydd wedi dewis opsiwn (d) ar y ffurflen cyfeiriad cartref, cyfeiriad neu gyfeiriadau llawn y man/mannau lle maent wedi byw.

2.132 Ardal berthnasol:

- **Ar gyfer cyfeiriadau yng Nghymru:**
  -os yw'r cyfeiriad mewn sir, y sir honno;
  -os yw'r cyfeiriad mewn bwrdeistref sirol, y fwrdeistref sirol honno.
- **Ar gyfer cyfeiriadau yn Lloegr:**
  -os yw'r cyfeiriad mewn dosbarth lle mae cyngor dosbarth, y dosbarth hwnnw;
  -os yw'r cyfeiriad mewn sir lle nad oes unrhyw ddosbarthiadau â chynghorau, y sir honno;
  -os yw'r cyfeiriad mewn bwrdeistref yn Llundain, y fwrdeistref honno yn Llundain.
  -os yw'r cyfeiriad yn Ninas Llundain (gan gynnwys y Deml Fewnol a'r Deml Ganol), y Ddinas honno yn Llundain; ac
  -os yw'r cyfeiriad ar Ynysoedd Scilly, Ynysoedd Scilly.
- **Ar gyfer cyfeiriadau yn yr Alban:**
  -yr ardal llywodraeth leol lle mae'r cyfeiriad.
- **Ar gyfer cyfeiriadau yng Ngogledd Iwerddon:**
  -y dosbarth llywodraeth leol lle mae'r cyfeiriad.

2.133 Dylid rhoi'r ardal berthnasol yn y fformat a ddisgrifir uchod ac nid y ward na'r gymuned, ac ni ddylid rhoi enw llawn yr awdurdod lleol ychwaith.

2.134 Mae'r Comisiwn wedi creu ffurflen cyfeiriad cartref fel rhan o'i set o bapurau enwebu ar gyfer etholiadau prif ardal ac etholiadau cyngor cymuned

Penderfynu ynghylch ffurflenni enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref

2.135 Ystyrir bod ymgeisydd sy'n cyflwyno papurau enwebu sydd wedi'u cwblhau erbyn y terfyn amser gofynnol wedi'i enwebu oni fyddwch yn penderfynu bod y ffurflen enwebu yn annilys neu nad yw'r ffurflen cyfeiriad cartref wedi'i chwblhau'n gywir (neu bydd yr ymgeisydd yn marw neu'n tynnu'n ôl).[100]

2.136 Ceir cyfraith achosion sy'n egluro na ddylai Swyddogion Canlyniadau archwilio nac ymchwilio i unrhyw ymgeisydd ac nad yw eu dyletswydd yn mynd y tu hwnt i sicrhau bod y ffurflen enwebu yn gywir yn ôl pob golwg.[101] Fel Swyddog Canlyniadau, ni ddylech, er enghraifft, archwilio a yw enw a roddwyd ar ffurflen enwebu yn ddilys. Bydd hefyd angen i chi ddiystyru unrhyw wybodaeth bersonol a all fod gennych eisoes am yr ymgeisydd. Bydd angen gwneud unrhyw benderfyniadau ar sail y ffurflen ei hun.

2.137 Dan amgylchiadau prin iawn, ceir eithriad, sydd hefyd yn seiliedig ar gyfraith achosion, i'r egwyddor o dderbyn papurau enwebu ar eu golwg. Efallai y bydd sefyllfa'n codi pan fydd enwebiad ymgeisydd yn amlwg yn ffug - er enghraifft, os bydd ymgeisydd wedi rhoi enw fel 'Mickey Mouse, Disneyland'. Mewn achos o'r fath, rhaid pennu bod y ffurflen enwebu yn annilys gan nad yw manylion yr ymgeisydd fel sydd eu hangen yn ôl y gyfraith.[102] Hefyd, mae'r gyfraith achosion yn nodi y bydd ymgeiswyr sy'n rhoi disgrifiadau sy'n aflan, yn hiliol neu sy'n ysgogi trosedd, yn cyflwyno manylion "nad ydynt yn unol â'r gyfraith". Y rheswm dros hyn yw eu bod yn mynd yn groes i'r gyfraith a/neu yn anochel yn cynnwys y Swyddog Canlyniadau mewn achos o dorri'r gyfraith. Wrth ystyried yr enw, dylid ystyried yn bennaf a yw'r "enw" ar y ffurflen enwebu yn ymddangos yn "amlwg yn ffug" ar wyneb y papur. Os nad yw'r "enw" yn ymddangos yn ddilys a'i fod yn ymddangos fel datganiad neu slogan, er enghraifft, cewch ystyried ei fod yn "amlwg yn ffug". Byddai unrhyw gasgliad yn cael ei ategu o ystyried y cyd-destun ehangach. Er enghraifft, a yw'n ymddangos mai slogan gwleidyddol yw'r enw mewn ymateb i ddigwyddiadau gwleidyddol cyfoes, yn hytrach nag enw rhywun go iawn? Dan yr amgylchiadau hynny, byddai llys yn debygol o ddod i'r casgliad bod enwau o'r fath yn "amlwg yn ffug" ac y dylai'r ffurflen enwebu gael ei gwrthod.

2.138 Hefyd, mae'r gyfraith achosion yn nodi y bydd ymgeiswyr sy'n rhoi disgrifiadau sy'n aflan, yn hiliol neu sy'n ysgogi trosedd, yn cyflwyno manylion "nad ydynt yn unol â'r gyfraith". Y rheswm dros hyn yw eu bod yn mynd yn groes i'r gyfraith a/neu yn anochel yn cynnwys y Swyddog Canlyniadau mewn achos o dorri'r gyfraith.

2.139 Rhaid i chi bennu dilysrwydd ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol.[103] Gorau po gyntaf y gwnewch y penderfyniad ffurfiol, oherwydd bydd mwy o siawns y bydd yr ymgeiswyr hynny sydd wedi gwneud camgymeriad ac y mae eu henwebiad wedi'i wrthod yn gallu cyflwyno papurau newydd cyn i'r enwebiadau gau.

2.140 Yn ôl y gyfraith, yr unig sail sydd gennych dros benderfynu bod ffurflen enwebu etholaethol yn annilys yw:

- nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith, neu
- nid yw'r ffurflen cyfeiriad cartref yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol[104]

- os yw ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn cynnwys datganiad na ddylid cyhoeddi'r cyfeiriad cartref, nid yw'r ffurflen yn cydymffurfio â'r gofynion [105]
- nid yw'r papur enwebu sy'n cynnwys y datganiadau perthnasol wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd, neu nid yw llofnod yr ymgeisydd wedi'i dystio[106]

2.141 Mae unrhyw ddisgrifiad a roddir ar y ffurflen enwebu yn rhan o 'fanylion yr ymgeisydd'. Felly, os nad yw enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a roddwyd yn ymddangos ar gofrestr y Comisiwn o bleidiau cofrestredig fel plaid a all ymladd etholiadau yng Nghymru, rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei gwrthod [107]

2.142 Yn yr un modd, os nad yw enw'r blaid gofrestredig na'r disgrifiad cofrestredig wedi'u hawdurdodi drwy gyflwyno tystysgrif awdurdodi yn y ffurf rhagnodedig, rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei hystyried yn annilys. [108]

2.143 Os nad yw'r ffurflen enwebu yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer disgrifiadau a amlinellir uchod, rhaid i chi wneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r ffurflen enwebu gael ei chyflwyno ac, mewn unrhyw achos, heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl y terfyn amser ar gyfer cau'r enwebiadau.[109]

2.144 Os penderfynir bod ffurflen enwebu yn annilys, rhaid i chi nodi hynny ar y ffurflen enwebu, nodi'r rhesymau dros ei gwrthod, a'i llofnodi.[110] Os penderfynir bod ffurflen enwebu'n annilys, mae'n bwysig cymryd camau i gysylltu â'r ymgeisydd a'r asiant cyn gynted â phosibl fel y gall gael y cyfle pan fo hynny'n bosibl i gyflwyno set arall o bapurau enwebu arall cyn i enwebiadau gau.

2.145 Rhaid i chi anfon hysbysiad o'ch penderfyniad bod papurau enwebu yn ddilys neu'n annilys at yr ymgeisydd[111] cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i chi wneud eich penderfyniad.

2.146 Rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref gael ei gwblhau'n llawn, neu rhaid i chi benderfynu nad yw'r cyfeiriad cartref yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ac nad yw'n ddilys.[112] I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion, gweler paragraff **2.126**.

2.147 Os na fyddwch wedi cael y ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu (h.y. erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad), ni fydd yr ymgeisydd wedi'i enwebu'n ddilys. Yna ni fydd angen gwneud penderfyniad ffurfiol, ac ni ddylai ei enw ymddangos ar y datganiad o'r personau a enwebwyd na'r papur pleidleisio.

A Rydym wedi llunio rhestr wirio sy'n nodi'r hyn y bydd angen i chi ei ystyried a phethau penodol i gadw llygad amdanynt pan fyddwch yn penderfynu ar enwebiad mewn etholiadau prif ardaloedd ac etholiadau cyngor cymuned.

Beth i'w wneud ar ôl gwneud eich penderfyniad ffurfiol

Pan fyddwch wedi penderfynu bod ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref yn ddilys, ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad, ond gellir ei herio ar ôl yr etholiad ar ffurf deiseb etholiadol.[113]

Cywiro mân wallau

2.148 Yn ôl y gyfraith, caniateir i chi gywiro mân wallau a wneir ar ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref (lle y bo angen) unrhyw bryd cyn i chi gyhoeddi'r datganiad o'r personau a enwebwyd.[114] Mae hyn yn cynnwys cywiro gwallau mewn perthynas â rhif etholwr unigolyn a gwallau amlwg wrth sillafu manylion ymgeisydd.[115] Dylech geisio cysylltu â'r ymgeisydd neu'r asiant cyn diwygio unrhyw fân wallau.

2.149 Rhaid i chi ystyried canllawiau'r Comisiwn ar gywiro mân wallau.[116]

Gwallau sillafu ym manylion ymgeiswyr

2.150 Gall fod yn anoddach delio â gwallau sillafu ‘amlwg’, oherwydd efallai na fydd rhywbeth sy'n amlwg i un person yn amlwg i rywun arall. Dylid bod yn ofalus wrth arfer y pŵer hwn.

Gwallau mewn cyfeiriad cartref

2.151 Pan na fydd cyfeiriad cartref yn hollol gywir efallai na fydd angen ei gywiro. Yn ôl y gyfraith, nid yw gwallau mewn cyfeiriad cartref yn effeithio ar ddilysrwydd enwebiad, cyhyd ag y gellir deall y cyfeiriad yn gyffredin.[117]

Archwilio papurau enwebu

2.152 Dylech gadw'r papurau enwebu yn ddiogel. Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ganiatáu i'r cyhoedd weld a chymryd copïau o’r ffurflen enwebu yn ystod

oriau swyddfa ar unrhyw ddiwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau hyd at ac yn cynnwys y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio.[118]

2.153 O ran enwebiadau a gyflwynir yn electronig, dim ond y ffurflen sydd ar gael i'w harchwilio neu ei gwrthod, yn hytrach nag unrhyw e-bost eglurhaol neu debyg. Gellir argraffu'r papurau er mwyn darparu copïau caled i'w harchwilio, neu fel arall gellir darparu'r papurau i'w harchwilio ar sgrîn.

2.154 Ar ôl y cyfnod archwilio, ni fydd y papurau enwebu ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Dylech eu storio'n ddiogel am flwyddyn ar ôl yr etholiad oherwydd y terfyn amser ar gyfer erlyn yn achos deiseb etholiadol. Dylai eich polisi cadw dogfennau nodi sut yr ewch ati i gadw papurau enwebu.

2.155 Ni cheir gwrthwynebu enwebiad mewn etholiad lleol.

Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref

2.156 Dylech gadw'r ffurflenni cyfeiriad cartref yn ddiogel. Yn ystod oriau swyddfa ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau hyd at ac yn cynnwys y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio, dim ond y rheini sydd â hawl i archwilio'r ffurflenni y dylech ganiatáu iddynt wneud hynny,[119] sef:

- ymgeisydd arall a enwebwyd i sefyll yn yr un ward etholiadol
- asiant etholiad unrhyw ymgeisydd a enwebwyd i sefyll yn yr un ward (neu, os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun, unrhyw un a enwebwyd ganddo)

Etholiadau cyngor cymuned

Yn achos etholiad cyngor cymuned, ystyr ardal etholiadol yw'r gymuned neu ward, yn dibynnu ar b'un a yw'r gymuned yn cynnwys wardiau.

2.157 Dylai ffurflenni cyfeiriad cartref gael eu harchwilio dan oruchwyliaeth. Ni chaniateir gwneud copïau o'r ffurflenni cyfeiriad cartref na dyfynnu rhannau ohonynt.[120]

2.158 Pan fydd y cyfnod archwilio wedi dod i ben, ni fydd y ffurflenni cyfeiriad cartref ar gael i'w harchwilio.

2.159 Rhaid i ffurflenni cyfeiriad cartref gael eu cadw'n ddiogel am gyfnod o 35 diwrnod gwaith ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan. [121]Rhaid iddynt gael eu dinistrio'n ddiogel ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y cyfnod o 35 diwrnod gwaith. [122]Fodd bynnag, os cyflwynir deiseb etholiadol yn ymwneud â'r etholiad o fewn y cyfnod o 35 diwrnod gwaith, rhaid i'r ffurflenni cyfeiriad cartref gael eu cadw'n ddiogel nes y daw gweithrediadau'r ddeiseb i ben (gan gynnwys unrhyw apêl sy'n deillio o'r gweithrediadau hynny). [123] Yna rhaid iddynt gael eu dinistrio'n ddiogel cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r gweithrediadau neu'r apêl ddod i ben.

Tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl

2.160 Mae'n bosibl i ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r ymgeisydd fod wedi llofnodi'r hysbysiad tynnu enw yn ôl ym mhresenoldeb tyst.[124] Rhaid i'r tyst dystio i lofnod yr ymgeisydd.[125] Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i chi erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais.[126]

2.161 Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno hysbysiad tynnu enw yn ôl. Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno â llaw i'r man cyflwyno papurau enwebu neu gael ei gyflwyno'n electronig i chi.[127] Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw hysbysiadau tynnu enw yn ôl a gyflwynir yn electronig eu cyflwyno yn unol â'r terfyn amser, rhaid i chi sicrhau bod unrhyw system gyfrifiadurol a ddefnyddir gennych yn cofnodi'r amser y daw'r hysbysiadau hynny i law.

A Nid yw'r hysbysiad tynnu enw yn ôl wedi'i ragnodi mewn deddfwriaeth. Rydym wedi llunio templed o hysbysiad tynnu enw yn ôl y gallech ei roi i ymgeiswyr mewn etholiadau prif ardaloedd ac etholiadau cymuned fel sy'n briodol.

2.162 Rhaid i fanylion unrhyw ymgeiswyr sy'n parhau i fod wedi'u henwebu'n ddilys erbyn diwedd y cyfnod ar gyfer tynnu enw yn ôl gael eu hargraffu ar y papurau pleidleisio.[128] Os na fydd ymgeisydd wedi tynnu'n ôl erbyn y terfyn amser, rhaid i'w enw gael ei gynnwys ar y papur pleidleisio.[129]

Ar ôl i'r cyfnod enwebu ddod i ben

2.163 Ar ôl i'r cyfnod enwebu ddod i ben, rhaid i chi gyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd a hysbysiad pleidleisio.[130] I gael manylion am yr hyn y dylai'r hysbysiadau hyn ei gynnwys, gweler Pennod 4.

Enwebiad mewn mwy nag un ardal etholiadol

2.164 Caiff ymgeisydd gyflwyno papurau enwebu ar gyfer mwy nag un ward yn yr un ardal llywodraeth leol. Fodd bynnag, rhaid iddo dynnu'n ôl o bob ward namyn un cyn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny.[131] Os na fydd yn gwneud hynny, ystyrir ei fod wedi tynnu ei enw yn ôl o bob ward.[132]

P **Etholiadau cyngor cymuned**

Gall ymgeisydd sefyll a chael ei ethol i gyngor cymuned a chyngor prif ardal ar gyfer yr un ardal neu ardal wahanol.

Etholiadau diwrthwynebiad

2.165 Os bydd yr etholiad llywodraeth leol mewn unrhyw ardal etholiadol yn ddiwrthwynebiad, rhaid i chi ddatgan yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys sy'n weddill erbyn y chweched diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio fan bellaf [133] . Rhaid i chi roi eu henwau a'u cyfeiriadau i swyddog priodol y cyngor lle cynhelir yr etholiad, a rhoi hysbysiad cyhoeddus o enw pob unigolyn a etholwyd. [134] Ni fydd angen cynnal etholiad.

P **Etholiadau cyngor cymuned**

Mewn etholiad cyngor cymuned, mae'n ofynnol i chi roi hysbysiad o enw a chyfeiriad pob unigolyn a etholwyd i swyddog priodol y cyngor cymuned, a hefyd i swyddog priodol cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol y mae'r gymuned yn rhan ohoni.[135]

P **Etholiadau cyngor cymuned**

Lle nad oes digon o ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys ar gyfer etholiad cyffredin i gyngor cymuned, caiff yr ymgeiswyr hynny a enwebwyd yn ddilys eu hethol.[136]

Os yw'r cyngor cymuned yn gwneud cworwm, h.y. os yw o leiaf dair ac o leiaf draean o gyfanswm y seddi ar y cyngor wedi'u llenwi, gall y cynghorwyr etholedig gyfethol cynghorwyr i lenwi'r seddi sy'n weddill[137].

Fodd bynnag, ar ôl cyfnod o 35 diwrnod gwaith o'r dyddiad y byddai'r diwrnod pleidleisio wedi cael ei gynnal pe bai'r etholiad wedi cael ei ymladd, os na fydd y cyngor wedi llenwi'r holl seddi gwag drwy gyfethol, gall cyngor perthnasol y brif ardal (h.y. cyngor sir neu fwrdeistref sirol):

- drwy orchymyn, benodi unigolion yn uniongyrchol fel cynghorwyr cymuned
- gwneud unrhyw beth angenrheidiol neu fuddiol er mwyn cynnal cyfarfod cyngor cymuned priodol a llunio'r cyngor yn briodol
- rhoi cyfarwyddyd y dylid cynnal etholiad newydd i lenwi'r seddi gwag sy'n weddill, a phennu dyddiad yr etholiad hwnnw[138]

Ni ddylai cyngor y brif ardal arfer y pŵer hwn o fewn 35 diwrnod gwaith i ddyddiad yr etholiad cyffredin a gall ganiatáu cyfnod hwy na 35 diwrnod gwaith i gyngor cymuned lenwi seddi gwag drwy broses gyfethol os yw'n dymuno.[139]

Marwolaeth ymgeisydd

2.166 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, mae'r weithdrefn y dylid ei dilyn mewn etholiad llywodraeth leol yn dibynnu ar pryd y cewch eich hysbysu am farwolaeth yr ymgeisydd. Yr adeg y cewch brawf o farwolaeth yr ymgeisydd yw'r ffactor perthnasol, nid union amser y farwolaeth.

2.167 Rhaid i chi fod yn fodlon, ar sail y prawf a gewch, fod yr ymgeisydd wedi marw[140]. Nid yw'r math o brawf o farwolaeth y gellir ei roi wedi'i nodi mewn cyfraith etholiadol felly gall ffactorau lleol ac amgylchiadau unigol helpu i bennu'r math o brawf y byddwch yn ei dderbyn. Er mai tystysgrif marwolaeth fyddai'r math mwyaf dibynadwy o brawf, efallai na fydd ar gael i chi ar unwaith ac efallai y byddwch yn penderfynu derbyn gwybodaeth arall yn brawf.

Prawf o farwolaeth a geir cyn y terfyn amser ar gyfer tynnu'n ôl

2.168 Os cewch brawf o farwolaeth ymgeisydd ar ôl derbyn ei enwebiad fel un dilys, ond cyn y terfyn amser ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl, dylech aros nes i'r terfyn amser hwnnw fynd heibio. Yn yr achos hwn, ystyrir nad yw'r ymgeisydd yn sefyll etholiad.[141] Os bydd nifer yr ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys, heb gynnwys y sawl a fu farw, yn fwy na nifer y bobl i'w hethol, rhaid diddymu'r etholiad a chynnal etholiad newydd.[142] Os bydd nifer yr ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys, heb gynnwys y sawl a fu farw, yr un peth â nifer y bobl i'w hethol neu'n llai na hynny, rhaid tybio bod pawb wedi'u hethol a rhaid i chi orchymyn etholiad newydd ar gyfer unrhyw seddi gwag.[143]

Prawf o farwolaeth a geir ar ôl y terfyn amser ar gyfer tynnu'n ôl a chyn i'r canlyniad gael ei ddatgan

2.169 Os ceir prawf o farwolaeth ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys mewn etholiad a ymleddir cyn i'r canlyniad gael ei ddatgan, caiff yr hysbysiad pleidleisio ei ddiddymu ac ni chynhelir y bleidlais.[144] Os bydd y pleidleisio wedi dechrau, rhaid i chi gyfarwyddo na chaiff rhagor o bapurau pleidleisio eu cyflwyno.[145] Yn yr achos hwn, gan y bydd y bleidlais wedi dechrau, rhaid i'r ddogfennaeth (h.y. papurau pleidleisio a gyflwynwyd a phapurau nas cyflwynwyd, ac ati) gael ei dychwelyd i chi a'i selio yn y ffordd arferol.[146]

2.170 Rhaid i unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd hefyd gael eu selio mewn pecynnau a rhaid i unrhyw amlenni heb eu hagor ar adeg yr hysbysiad o'r farwolaeth gael eu selio mewn pecynnau heb eu hagor.[147] Rhaid cynnal etholiad newydd.

Etholiad newydd

2.171 Pan fydd angen cynnal etholiad newydd yn sgil diddymu neu roi'r gorau i etholiad ar ôl i ymgeisydd farw, rhaid i chi ddewis diwrnod newydd ar gyfer yr etholiad, sydd o fewn 35 diwrnod gwaith i'r diwrnod a drefnwyd ar gyfer yr etholiad cyntaf.[148] Gellir gwneud enwebiadau newydd, ond nid oes rhaid i ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys yn yr etholiad gwreiddiol gael eu henwebu am yr eildro.[149] Ni chaiff ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys cyn diddymu neu roi'r gorau i'r etholiad dynnu'n ôl am fod y cyfnod ar gyfer gwneud hyn wedi dod i ben.

3 Asiantiaid yn yr etholiad

Yr asiant etholiad

3.1 Rhaid i bob ymgeisydd gael asiant etholiad, a rhaid i chi gael eich hysbysu am ei benodiad cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau tynnu enw yn ôl, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn yr etholiad.[150] Rydym wedi llunio ffurflen ar gyfer hysbysu am benodiad asiantiaid etholiadol fel rhan o'r set o bapurau enwebu rydym wedi ei llunio.

3.2 Gall ymgeisydd benodi ei hun fel ei asiant etholiad. Hefyd, os na chaiff asiant ei benodi erbyn y terfyn amser ar gyfer tynnu'n ôl, ystyrir bod yr ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun.[151]

3.3 Ystyrir bod ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun hefyd os bydd yn dirymu penodiad ei asiant, neu os bydd yr asiant yn marw, ac na chaiff asiant newydd ei benodi ar ddiwrnod y farwolaeth neu'r diwrnod canlynol.[152]

3.4 Os bydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun, ni waeth a yw wedi dod yn asiant am na wnaeth benodi un neu am ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi o'i benodiad ei hun, gall hefyd ddirymu ei benodiad ei hun a phenodi asiant newydd.[153] Yn ôl y gyfraith, rhaid iddo eich hysbysu yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau o'r fath.[154]

3.5 Rhaid i'r asiant etholiad gael swyddfa, a rhaid i'r hysbysiad o benodiad nodi cyfeiriad y swyddfa y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill iddi.[155] Rhaid i gyfeiriad y swyddfa fod yn gyfeiriad y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddo, ac felly rhaid iddo fod yn gyfeiriad ffisegol - ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post nac unrhyw flychau post tebyg.

dao

Etholiadau cyngor cymuned

Nid oes darpariaeth ar gyfer penodi asiantiaid etholiad mewn etholiadau cyngor cymuned.[156]

3.6 Rhaid i leoliad y swyddfa fod:

- yn yr ardal llywodraeth leol, neu
- yn un o etholaethau Seneddol y DU neu un o'r etholaethau sydd wedi'u cynnwys yn llawn neu'n rhannol yn yr ardal llywodraeth leol, neu
- mewn sir neu fwrdeistref sirol gyfagos yng Nghymru[157]

3.7 Yn aml, cyfeiriad cartref yr asiant etholiad fydd cyfeiriad ei swyddfa, ond gallai fod yn gyfeiriad swyddfa leol y blaid wleidyddol neu swyddfa a sefydlwyd yn arbennig ar gyfer yr etholiad.

3.8 . Os yw'r cyfeiriad a ddarperir y tu allan i'r ardal gymhwyso berthnasol fel y'i diffinnir yn y pwyntiau bwled uchod, dylech gysylltu â'r asiant a gofyn iddynt ddarparu cyfeiriad arall o fewn yr ardal gymhwyso berthnasol.

3.9 Pan fydd ymgeisydd yn penodi eu hunain fel eu hasiant etholiadol eu hunain, a'u bod wedi nodi ar y ffurflen cyfeiriad cartref eu bod am i'w cyfeiriad cartref aros yn breifat, ni ddylai eu cyfeiriad cartref fod yn gyhoeddus ar hysbysiad yr asiantiaid etholiadol..[158]

3.10 O dan yr amgylchiadau hyn rhaid i'r ymgeisydd roi cyfeiriad gohebu arall i chi yng Nghymru neu Loegr i'w gyhoeddi ar hysbysiad yr asiantiaid etholiadol.[159]

3.11 Os bydd ymgeisydd yn methu â phenodi asiant etholiadol ac y bernir mai nhw yw eu hasiant eu hunain yn ddiofyn, ni fyddant yn cael cyfle i ddarparu cyfeiriad gohebiaeth arall. Yn yr achos hwn, cyfeiriad eu swyddfa fydd naill ai:

- Eu cyfeiriad cartref fel y'i darperir ar y ffurflen cyfeiriad cartref os yw'r cyfeiriad hwnnw yng Nghymru neu Loegr; neu

- Eu cyfeiriadau cymwys cyntaf a ddarparwyd gyfochr â'u cymhwyster i sefyll mewn etholiad.

3.12 Rhaid cyhoeddi'r cyfeiriad swyddfa hwn ar hysbysiad yr asiantiaid etholiadol. Bydd hyn yn wir hyd yn oed os ydynt wedi gofyn am gadw'r wybodaeth honno'n breifat ar y ffurflen cyfeiriad cartref. Dylech sicrhau bod hyn yn cael ei ddwyn i sylw unrhyw ymgeisydd sy'n methu penodi naill ai eu hunain neu berson arall fel ei asiant.

3.13 Pan gewch eich hysbysu am enw a chyfeiriad asiant etholiadol, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion hynny cyn gynted â phosibl.[160] Dylech hefyd gynnwys enw llawn yr ymgeisydd ar yr hysbysiad, a gallech ychwanegu unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin mewn cromfachau, er mwyn bod yn gyflawn. Rhaid i'r hysbysiad gael ei ddiweddaru os di-rymir penodiad asiant, neu os bydd asiant yn marw, a rhaid nodi manylion yr asiant newydd ar y fersiwn ddiwygiedig.[161]

3.14 Dylai eich hysbysiad preifatrwydd nodi'n glir ei bod yn ofynnol i chi, o dan ddeddfwriaeth etholiadol, gyhoeddi enw a chyfeiriad asiant etholiad yn yr hysbysiad o asiantiaid etholiad. Bydd hefyd angen i chi ystyried a yw'n briodol neu'n angenrheidiol i'r hysbysiad barhau i gael ei gyhoeddi, ar eich gwefan neu rywle arall, ar ôl i gyfnod deiseb yr etholiad hwnnw ddod i ben.

3.15 Mae gan yr hysbysiad ddiben penodol, h.y. nodi pwy fydd asiant etholiad ymgeisydd, felly unwaith y bydd yr etholiad drosodd, a bod y cyfle i gwestiynu'r etholiad hwnnw wedi darfod, ni fydd ganddo unrhyw ddiben

pellach mwyach. Felly, dylech naill ai ddileu'r hysbysiad, neu ddileu'r data personol sydd ynddo, pan fydd dyddiad cau deiseb yr etholiad wedi mynd heibio.

a Mae ein hadnodd diogelu data yn ymdrin â gofynion hysbysiad preifatrwydd ac ystyriaethau cadw dogfennau.

Asiantiaid eraill

3.16 Gall ymgeiswyr benodi asiantiaid i arsylwi ar y broses o agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r broses ddilysu a chyfrif.[162] Gall yr asiant etholiad hefyd benodi asiantiaid i arsylwi ar y broses o agor pleidleisiau post mewn etholiadau prif ardaloedd. Chi sy'n gyfrifol am dderbyn hysbysiadau o benodiadau'r asiantiaid hyn a rhaid i chi sicrhau y caiff pob asiant penodedig gopi o'r gofynion perthnasol ynglŷn â chyfrinachedd ar gyfer agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r cyfrif.[163]

Al gael rhagor o fanylion am rôl yr asiantiaid hyn, gweler Rhan 5: 'Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol' yn ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau prif ardaloedd llywodraeth leol, ac etholiadau cyngor cymuned.

Refferenda maerol

Dylai pob cyfeiriad at ymgeiswyr ac asiantiaid yn yr adran hon ('Asiantiaid eraill') gael ei ddehongli fel trefnwyr deisebau ac arsylwyr cyfrif a phleidleisio a benodwyd at ddibenion y refferendwm.[164] Yn ogystal â'r cyfrif, caiff arsylwyr cyfrif mewn refferendwm maerol hefyd fod yn bresennol pan agorir pleidleisiau post.[165]

Mewn refferendwm maerol, yn rhinwedd eich swydd fel Swyddog Cyfrif, cewch benodi arsylwyr pleidleisio ac mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i benodi arsylwyr cyfrif.[166] Er mwyn eich helpu i benodi arsylwyr cyfrif, caiff trefnydd deiseb enwebu arsylwyr i chi eu penodi ac ni chewch wrthod enwebiadau o'r fath heb reswm da.[167]

Rhaid i arsylwyr pleidleisio a chyfrif gael eu penodi'n ysgrifenedig erbyn y pumed diwrnod gwaith cyn y bleidlais.[168] Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig gynnwys enw a chyfeiriad pawb a enwebwyd.[169]

Achlysur agor pleidleisiau post

3.17 Yn ôl y gyfraith, caniateir i asiantiaid pleidleisio drwy'r post arsylwi ar y broses o agor blwch pleidleisio pleidleiswyr post, agor pleidleisiau post a

ddychwelwyd a chadarnhau llofnodion a dyddiadau geni a nodwyd ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd.[170] Rhaid i chi gael hysbysiad ysgrifenedig o enw a chyfeiriad unrhyw asiantiaid pleidleisio drwy'r post cyn dechrau unrhyw sesiwn benodol y mae'r asiantiaid yn dymuno bod yn bresennol ynddi.[171] Mae'r Comisiwn wedi datblygu ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio drwy'r post.

3.18 Rhaid i chi roi o leiaf 48 awr o rybudd i ymgeiswyr o amser a lleoliad unrhyw sesiwn agor pleidleisiau post a nifer yr asiantiaid y caiff ymgeisydd eu penodi i fod yn bresennol ym mhob sesiwn agor.[172]

Refferenda maerol

Mewn refferendwm maerol, rhaid i chi roi o leiaf 48 awr o rybudd o amser a lleoliad unrhyw sesiwn agor pleidleisiau post i arsylwyr cyfrif at ddiben arsylwi sesiynau agor pleidleisiau post.[173]

Y bleidlais

3.19 Yn ôl y gyfraith, mae gan asiantiaid pleidleisio yr hawl i gael mynediad i orsafoedd pleidleisio at ddiben canfod achos o gambersonadu.[174] Gallant hefyd arsylwi ar y gweithdrefnau i'w dilyn mewn gorsaf bleidleisio.

3.20 Rhaid i chi gael eich hysbysu yn ysgrifenedig am unrhyw asiantiaid pleidleisio a benodwyd o fewn pum diwrnod gwaith fan bellaf cyn yr etholiad er mwyn i'w penodiad fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad.[175] Mae'r Comisiwn wedi datblygu ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio.

3.21 Gall asiant pleidleisio gael ei benodi i orsaf bleidleisio neu orsafoedd pleidleisio penodol, neu bob gorsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol berthnasol. Gellir penodi'r un asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol mewn mwy nag un orsaf bleidleisio.

3.22 Caniateir i gyfanswm o bedwar asiant fod yn bresennol mewn unrhyw orsaf bleidleisio benodol, neu gallwch benderfynu caniatáu i fwy o asiantiaid fod yn bresennol.[176] Mae'r terfyn yn gymwys i bob gorsaf bleidleisio unigol, hyd yn oed os oes mwy nag un orsaf bleidleisio yn yr un adeilad neu ystafell. Os byddwch yn penderfynu caniatáu i fwy na phedwar asiant pleidleisio fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio, rhaid i chi roi hysbysiad o'r ffigur uwch hwnnw.[177] Dylid cyhoeddi'r hysbysiad hwn ar eich gwefan a rhoi copi ohono i'r ymgeiswyr a'u hasiantiaid etholiad. Gallwch benderfynu pennu uchafsymiau

gwahanol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio gwahanol ac, os felly, dylech nodi hynny'n glir ar yr hysbysiad a gyhoeddir gennych.

3.23 Os bydd yr holl ymgeiswyr gyda'i gilydd yn penodi mwy nag uchafswm yr asiantiaid pleidleisio a gaiff fod yn bresennol mewn unrhyw orsaf bleidleisio, rhaid i chi benderfynu pa asiantiaid pleidleisio a gaiff fod yn bresennol drwy eu dewis ar hap ar gyfer pob gorsaf bleidleisio.[178] Ni chaiff y rhai na chânt eu dewis ar hap eu penodi yn asiantiaid pleidleisio ar gyfer yr orsaf bleidleisio honno.[179]

3.24 Dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd a gaiff fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

Y cyfrif

3.25 Gellir penodi asiantiaid cyfrif i arsylwi ar y prosesau dilysu a chyfrif.[180]

3.26 Rhaid i chi gael eich hysbysu yn ysgrifenedig am benodiad asiantiaid cyfrif o fewn pum diwrnod gwaith fan bellaf cyn yr etholiad er mwyn i'w penodiad fod yn weithredol ar gyfer y dilysu a'r cyfrif.[181] Mae'r Comisiwn wedi datblygu ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant cyfrif.

3.27 Rhaid i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i asiantiaid cyfrif a benodwyd o'r amser a'r lleoliad lle y bydd y prosesau dilysu a chyfrif yn dechrau cael eu cynnal.[182]

3.28 Yn ôl y gyfraith, caniateir i chi gyfyngu ar nifer yr asiantiaid cyfrif.[183] Rhaid i nifer yr asiantiaid cyfrif y caiff pob ymgeisydd eu penodi fod yr un peth ac, oni bai bod amgylchiadau arbennig, ni chaiff fod yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny sy'n cyfrif y papurau pleidleisio) â nifer yr ymgeiswyr.[184]

3.29 Wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif, dylai pob ymgeisydd, hyd y gellir, gael caniatâd i benodi digon o asiantiaid cyfrif fel y gellir craffu'n llawn ac yn briodol ar y prosesau dilysu a chyfrif. Fodd bynnag, dylech ystyried unrhyw oblygiadau o ran iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoliadau tân ar gyfer y lleoliad dilysu a chyfrif pleidleisiau, wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif.

Cyfuno

Wrth benderfynu ar uchafswm yr asiantiaid cyfrif a gaiff fod yn bresennol lle cyfunir etholiadau, dylech gofio bod gan yr asiantiaid cyfrif ar gyfer yr holl etholiadau sy'n cael eu dilysu hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu pob pleidlais.

Al gael manylion ynglŷn â phwy a gaiff fod yn bresennol yn ystod prosesau dilysu a chyfrif, gweler Rhan E: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau.

4 Paratoi hysbysiadau, cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio

Paratoi a chyhoeddi hysbysiadau

4.1 Pan fydd angen i chi gyhoeddi hysbysiadau, gallwch wneud hynny ar-lein neu drwy unrhyw ffordd arall sy'n briodol i dynnu sylw'r cyhoedd at y cynnwys, yn eich barn chi.[185] Dylai hyn gynnwys swyddfeydd yr awdurdod lleol, gwefannau, hysbysfyrddau, llyfrgelloedd, adeiladau cyhoeddus eraill neu mewn unrhyw fan amlwg arall yn yr ardal etholiadol.

4.2 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn pryd er mwyn iddynt fwrw eu pleidlais, dylech sicrhau bod gwybodaeth am yr etholiadau, gan gynnwys yr hysbysiadau etholiad a'r hysbysiadau pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr.

4.3 Pan fyddwch yn cyhoeddi hysbysiadau a gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein, dylech sicrhau eu bod yn hygyrch i bob pleidleisiwr. Er enghraifft, os byddwch yn darparu gwybodaeth ar ffurf PDF, dylech fod yn ymwybodol os na chaiff camau penodol eu dilyn wrth greu dogfennau PDF, efallai na fyddant yn gydnaws â darllenwyr sgriniau a thechnolegau cynorthwyol eraill. Mae Llywodraeth y DU wedi llunio canllaw ar lunio dogfennau PDF hygyrch i chi gyfeirio ato. Gallech hefyd siarad â swyddog cydraddoldebau eich awdurdod am gyngor.

4.4 Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, bydd angen i chi ystyried a yw'n briodol neu'n angenrheidiol i'r hysbysiadau barhau i gael eu cyhoeddi, ar eich gwefan neu yn rhywle arall, ar ôl i gyfnod deiseb yr etholiad hwnnw ddod i ben. Os oes gan yr hysbysiadau ddibenion penodol, h.y. nodi pwy fydd yn ymgeisydd yn yr etholiad, pan fydd yr etholiad drosodd, a'r cyfle i gwestiynu'r etholiad hwnnw wedi darfod, ni fydd ganddynt unrhyw ddiben pellach mwyach. Felly, dylech naill ai ddileu'r hysbysiadau, neu ddileu'r data personol sydd ynddynt, pan fydd dyddiad cau deiseb yr etholiad wedi mynd heibio.

4.5 Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu cadw data personol am fwy o amser os caiff y data eu prosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd yn unig, neu at ddibenion gwyddonol, hanesyddol neu ystadegol ac yn amodol ar weithredu mesurau diogelu priodol. Ar gyfer hysbysiadau canlyniadau

etholiad, er enghraifft, dylech gadw'r rhain ar eich gwefan gan eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd ac at ddibenion hanesyddol ac ystadegol.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod gwybodaeth am yr etholiadau, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth am bleidleisio yn hawdd drwy wefan yr awdurdod lleol.

a

Gweler Rhan B - 'Cynllunio a threfnu' i gael canllawiau mwy cyffredinol ar gyfleu gwybodaeth i etholwyr.

4.6 Dylai fod gennych brosesau prawfddarllen cadarn ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau yn yr hysbysiadau y mae'n ofynnol i chi eu cyhoeddi. Gallai sicrhau bod prosesau prawfddarllen cadarn ar waith helpu i ganfod unrhyw wallau ac osgoi achosion posibl o dorri diogelwch data cyn iddynt ddigwydd.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad(au) etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael prosesau ar waith i brawfddarllen yr hysbysiad(au).

Cyfieithu a fformatau hysbysiadau

4.7 Rhaid i chi sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyfieithu neu eu darparu mewn fformat arall, os credwch fod hynny'n briodol. [186] Gallech eu paratoi:

- mewn Braille
- mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg
- gan ddefnyddio lluniau
- mewn fformat sain [187]
- gan ddefnyddio unrhyw ddull arall o sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch

4.8 Ni ellir llunio'r ffurflen enwebu na'r papurau pleidleisio mewn unrhyw iaith na fformat arall.[188] Fodd bynnag, gellir llunio'r copïau arddangos wedi'u chwyddo o'r papur(au) pleidleisio mewn ieithoedd neu fformatau eraill.[189]

Hysbysiad etholiad

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad(au) etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael prosesau ar waith i brawfddarllen yr hysbysiad(au).

4.9 Rhaid i chi gyhoeddi'r hysbysiad etholiad heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.[190] Gellir llunio hysbysiad ar wahân ar gyfer pob ward, neu gellir llunio hysbysiad cyfunol sy'n cynnwys yr holl wardiau yn yr ardal awdurdod lleol gydag etholiadau.

4.10 Mae'n rhaid i'r hysbysiad etholiad gynnwys y canlynol:

- Nifer y cynghorwyr i'w hethol ym mhob ward etholiadol yn y brif ardal
- dyddiad y bleidlais os caiff yr etholiad ei ymladd
- ble a phryd y gellir cael papurau enwebu a gwybodaeth am sut a phryd y gellir cael papurau enwebu ar-lein
- y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu
- ble a phryd y gellir cyflwyno papurau enwebu
- y dyddiad y mae'n rhaid i geisiadau am bleidleisiau absennol (gan gynnwys ceisiadau i fwrw pleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng) ac unrhyw geisiadau i ganslo neu newid trefniadau pleidleisio absennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad[191]

- Datganiad ar gyflwyno'n electronig.

4.11 Dylai'r hysbysiad etholiad hefyd nodi erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer yr etholiad.

4.12 Mae'r datganiad ar gyflwyno'n electronig sy'n rhan o'r hysbysiad etholiad yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn iddynt allu cyflwyno enwebiadau'n electronig. I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y datganiad ar gyflwyno'n electronig, gweler paragraff **2.8**

4.13 Dylid sicrhau mai swyddfa cyngor y brif ardal yw'r lleoliad a nodir yn yr hysbysiad ar gyfer cael a chyflwyno papurau enwebu â llaw.[192]

Etholiad cyngor cymuned

Yn wahanol i bapurau enwebu ar gyfer etholiadau prif ardal, nid oes rhaid mai swyddfeydd y cyngor yw'r lleoliad a nodir ar yr hysbysiad etholiad ar gyfer cyflwyno papurau enwebu â llaw.

4.14 Dylid sicrhau mai swyddfa cyngor y brif ardal yw'r lleoliad a nodir yn yr hysbysiad ar gyfer cael a chyflwyno papurau enwebu â llaw.[193]

4.15 Dylai'r cyfeiriad a roddir ar gyfer cyflwyno papurau enwebu fod yn union gywir, a dylai gynnwys unrhyw rif ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth os caiff enwebiadau eu cyflwyno'n agos at y terfyn amser. Dylid hysbysu pob aelod o staff derbynfa'r adeilad ac adeiladau cysylltiedig eraill na ddylent dderbyn papurau enwebu.

4.16 Mae'r Comisiwn wedi datblygu templed o hysbysiad etholiad y gallwch ei ddefnyddio.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith gennych er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar yr hysbysiad(au) etholiad. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi gael prosesau ar waith i brawfddarllen yr hysbysiad(au).

Refferenda maerol

Mewn Refferendwm Maerol, rhaid i'r hysbysiad refferendwm, yn ôl y gyfraith, nodi:[194]

- dyddiad y bleidlais
- erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer pleidleisiau drwy'r post neu drwy ddirprwy (yn cynnwys dirprwyon brys) gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y refferendwm[195]

Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys y dyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer cofrestru gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn weithredol ar gyfer y refferendwm.

Datganiad o'r personau a enwebwyd

4.17 Rhaid i chi gyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd ar gyfer pob ward erbyn 4pm, deunaw diwrnod gwaith cyn y bleidlais.[196]

4.18 Rhaid i'r datganiad o'r personau a enwebwyd gynnwys y canlynol ar gyfer pob ymgeisydd sydd wedi'i enwebu'n ddilys, yn ogystal â'r rheini sydd wedi tynnu'n ôl neu rydych wedi gwrthod eu henwebiad:[197]

- enw
- cyfeiriad neu, os yw'r ymgeisydd wedi gofyn am i'w gyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, enw'r ardal berthnasol lle mae ei gyfeiriad cartref (neu'r wlad os yw ei gyfeiriad cartref y tu allan i'r DU)
- disgrifiad (os o gwbl)

- y wybodaeth ar ddatganiad o aelodaeth plaid wleidyddol yr ymgeisydd, fel y'i nodir ar ei bapur enwebu
- yn achos y rheini nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, y rheswm dros hynny.

4.19 Dylai eich hysbysiad preifatrwydd nodi'n glir ei bod yn ofynnol i chi, o dan ddeddfwriaeth etholiadol, gyhoeddi enw, cyfeiriad a datganiad o aelodaeth plaid wleidyddol yr ymgeisydd yn y datganiad o'r personau a enwebwyd.

a Mae ein hadnodd diogelu data yn cwmpasu gofynion hysbysiad preifatrwydd.

4.20 Rhaid i enwau'r ymgeiswyr ar y datganiad gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor o ran eu cyfenw;[198] dyma sut y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio hefyd.[199] Pan fydd gan ddau neu fwy o ymgeiswyr yr un cyfenw, yr enwau eraill yn nhrefn yr wyddor fydd yn pennu pa ymgeisydd a gaiff ei restru gyntaf.[200]

4.21 Os bydd mwy nag un ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys wedi gofyn am i'w gyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi erbyn diwedd y cyfnod enwebu, ac os ydynt yn byw yn yr un ardal berthnasol yn y DU, neu fel arall yr un wlad, rhaid i chi ystyried a oes gan ddau neu fwy ohonynt yr un enw neu enw tebyg sy'n debygol o achosi dryswch[201]. Os byddwch yn ystyried mai dyma yw'r achos, gallwch ychwanegu'r cyfryw fanylion o'u ffurflen cyfeiriad cartref neu ffurflen enwebu fel sy'n briodol, yn eich barn chi, i leihau'r tebygrwydd o ddryswch.

4.22 Cyn i chi benderfynu pa fanylion y dylid eu cynnwys, rhaid i chi ymgynghori â'r ymgeisydd/ymgeiswyr dan sylw, os yw'n ymarferol i chi wneud hynny. Sut bynnag, rhaid i chi hysbysu'r ymgeisydd/ymgeiswyr dan sylw yn ysgrifenedig am y wybodaeth ychwanegol a gyhoeddir.[202]

4.23 Os bydd unigolyn wedi nodi enw cyntaf neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin ar ei bapur enwebu, rhaid i'r datganiad ddangos yr enw a ddefnyddir yn gyffredin yn hytrach na'r enw gwirioneddol.[203] Pan fydd ymgeisydd wedi gofyn am gael defnyddio cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, rhaid i safle'r ymgeisydd o ran trefn yr wyddor ar y datganiad o'r personau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio gyfeirio at ei gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin.[204]

4.24 Fodd bynnag, os byddwch wedi gwrthod y defnydd o unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin gan eich bod o'r farn ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anweddus neu'n sarhaus, rhaid i'r enw gwirioneddol, yn ôl y gyfraith, gael ei gyhoeddi ar y datganiad o'r personau a enwebwyd yn lle'r enw a ddefnyddir yn gyffredin.[205]

Hysbysiad pleidleisio

4.25 Os bydd mwy o ymgeiswyr nag sydd o seddi gwag, ac y bydd ymladd, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad pleidleisio ar gyfer pob ward erbyn y chweched diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio.[206] Rhaid i'r hysbysiad pleidleisio nodi:[207]

- dyddiad ac oriau'r etholiad
- nifer y cynghorwyr i'w hethol yn y ward
- enwau a disgrifiadau (os o gwbl) pob ymgeisydd, a'i gyfeiriad cartref

4.26 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion yr ymgeiswyr ar yr hysbysiad pleidleisio fod yr un fath â'r wybodaeth yn y datganiad o'r personau a enwebwyd. Felly, os bydd ymgeisydd yn dewis atal ei gyfeiriad cartref rhag y datganiad o'r personau a enwebwyd a'r papurau pleidleisio, ni ddylid cynnwys ei gyfeiriad cartref ar yr hysbysiad pleidleisio chwaith. [208]

4.27 Dylai eich hysbysiad preifatrwydd nodi'n glir ei bod yn ofynnol i chi, o dan ddeddfwriaeth etholiadol, gyhoeddi enw a chyfeiriad ymgeisydd yn yr hysbysiad pleidleisio.

a Mae ein hadnodd diogelu data yn cwmpasu gofynion hysbysiad preifatrwydd.

4.28 Dylech roi copi o'r hysbysiad etholiad i bob ymgeisydd ac asiant etholiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei gyhoeddi. Dylech hefyd fod yn barod i roi copïau i unrhyw arsylwyr achrededig ar gais.

Refferenda maerol

Mewn refferendwm maerol, rhaid i'r hysbysiad pleidleisio gynnwys:

- dyddiad ac oriau'r etholiad
- y datganiad a'r cwestiwn i'w ofyn yn y refferendwm[209]

Os bydd unrhyw ymgyrchwyr wedi cysylltu â chi neu'n hysbys i chi, dylech roi copi o'r hysbysiad pleidleisio a lleoliad gorsafoedd pleidleisio iddynt er gwybodaeth. Dylech hefyd roi'r rhain i unrhyw arsylwyr pleidleisio a benodwyd.

Hysbysiad ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio

4.29 Rhaid i chi, cyn neu ar yr un pryd â chyhoeddi'r hysbysiad pleidleisio, baratoi a chyhoeddi hysbysiad yn nodi'r canlynol:

- lleoliad pob gorsaf bleidleisio yn yr ardal
- disgrifiad o'r pleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno[210]

Cyfuno

Pan gaiff dwy bleidlais neu fwy eu cyfuno, y Swyddog Canlyniadau sydd â'r swyddogaethau cyfunol sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio.

Rhaid i'r hysbysiad hefyd:

- nodi y caiff y bleidlais ei chynnal gyda'r bleidlais yn yr etholiad(au) arall/eraill[211]
- nodi ym mha awdurdod lleol perthnasol y cynhelir yr etholiad arall[212]
- os caiff y bleidlais ei chyfuno â phleidlais etholiad i lenwi sedd wag achlysurol, nodi'r ardal etholiadol y cynhelir yr etholiad ynddi[213]

4.30 Dylai fod gennych brosesau prawfddarllen cadarn ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau yn yr hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio.

4.31 Rhaid i chi roi copi o'r hysbysiad perthnasol ynghylch lleoliad gorsafoedd pleidleisio a disgrifiadau o bleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno i bob asiant etholiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, a dylech hefyd roi copi o'r hysbysiad perthnasol i bob ymgeisydd. [214] Dylech hefyd fod yn barod i sicrhau bod yr hysbysiadau hyn ar gael i unrhyw arsylwyr achrededig ar gais.

4.32 Mae'r Comisiwn wedi llunio templed o hysbysiad etholiad a lleoliad gorsafoedd pleidleisio y gallwch ei ddefnyddio.

Paratoi cardiau pleidleisio

4.33 Fel Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol, chi sy'n gyfrifol am anfon cerdyn pleidleisio swyddogol at etholwyr a'u dirprwyon.[215] Rhaid i'r cardiau pleidleisio ddilyn y ffurf benodedig neu ffurf debyg.[216]

4.34 Rhaid i'r cerdyn pleidleisio nodi'r canlynol:

- enw'r cyngor y caiff cynghorwyr eu hethol iddo
- y ward etholiadol y caiff cynghorwyr eu hethol iddi
- nifer y cynghorwyr i'w hethol yn y ward etholiadol honno
- enw'r ymgeisydd, ei gyfeiriad cymwys a'i rif ar y gofrestr
- dyddiad ac oriau'r etholiad a lleoliad gorsaf bleidleisio'r etholwr
- unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn y Swyddog Canlyniadau.[217]

Cyfuno

Os byddwch chi a'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif ar gyfer yr etholiad perthnasol arall yn cytuno, gallwch gyflwyno cardiau pleidleisio ar y cyd ar gyfer pob pleidlais.[218]

Rhaid i'r cardiau pleidleisio ddilyn y ffurf benodedig[219], ond gallwch wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol wrth eu cyfuno.[220]

Rhaid i chi sicrhau bod yr holl elfennau a nodir yn y rheolau etholiadol perthnasol ac a ddangosir ar flaen ac ar gefn y cardiau pleidleisio yn yr atodiad i'r rheolau etholiadau wedi'u cynnwys.

Lle rhoddir cardiau pleidleisio cyfunol, dylid rhoi gwybodaeth am bob digwyddiad etholiadol perthnasol. Os mai dim ond rhai wardiau yn eich ardal sydd â chyfuniad penodol o ddigwyddiadau pleidleisio, dylech wneud trefniadau i sicrhau bod etholwyr yn cael cardiau pleidleisio sy'n cynnwys y wybodaeth am y cyfuniad penodol o ddigwyddiadau pleidleisio yn eu ward.

4.35 Bydd angen i chi anfon data eich cerdyn pleidleisio at eich argraffwyr.

4.36 Os byddwch yn gosod y gwaith o baratoi'r cardiau pleidleisio ar gontract allanol, dylech sicrhau bod eich meddalwedd yn gallu llunio ffeil data y gall eich argraffwyr ei defnyddio i baratoi'r deunyddiau yn unol â'r fanyleb sydd ei hangen. Ar gam cynnar yn eich trafodaethau â chyflenwyr dylech nodi ym mha fformat y byddwch yn cyflenwi'r data ac ym mha fformat y byddant yn anfon unrhyw broflenni atoch, a dylai hyn gael ei nodi yn eich manyleb a'ch contract.

4.37 Os byddwch yn anfon data cofrestru at gontractwr er mwyn cynhyrchu cardiau pleidleisio ar gyfer yr etholiad, byddwch yn defnyddio prosesydd. Fel rheolydd data, mae deddfwriaeth diogelu data yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol, wrth ddefnyddio prosesydd, i ffurfioli'r gydberthynas waith mewn contract sy'n nodi'r canlynol:

- y pwnc, natur a diben y prosesu;
- rhwymedigaethau a hawliau'r rheolydd data;
- hyd y cyfnod prosesu; ac
- y mathau o ddata personol a chategorïau o destunau data.

4.38 Hefyd, rhaid i'r contract nodi rhwymedigaethau penodol ar y prosesydd, gan gynnwys gwneud y canlynol:

- cydymffurfio â'ch cyfarwyddiadau
- bod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd
- cadw data personol yn ddiogel a'ch hysbysu am unrhyw achos o dorri diogelwch data
- cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgareddau prosesu y mae'n eu cyflawni ar eich rhan
- dim ond defnyddio is-brosesydd gyda'ch caniatâd
- ildio i archwiliadau ac arolygiadau a rhoi pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen arnoch i sicrhau y cydymffurfir â gofynion diogelu data
- dileu neu ddychwelyd unrhyw ddata personol fel y gofynnir amdanynt ar ddiwedd y contract.

4.39 Dylech sicrhau bod eich cytundeb/contract yn cadarnhau'n benodol:

- y dylai data cofrestru etholiadol a ddelir gan brosesydd gael eu dinistrio cyn gynted â phosibl ar ôl y diwrnod pleidleisio.
- na all gwybodaeth o'r gofrestr etholiadol lawn gael ei datgelu ar unrhyw adeg, gan gadarnhau na fydd yn datgelu data i unrhyw un heb awdurdod; ac
- ar ôl yr etholiad, y caiff unrhyw ddisgiau a chofnodion papur a roddwyd iddo eu dychwelyd, gan ddinistrio unrhyw gopïau electronig neu bapur o'r data yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.40 Dylech hefyd gynnal prawf drwy gyflwyno sampl o ddata i'r argraffwyr cyn cyflwyno data ‘byw’. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i fersiwn cyn proflen gael ei datblygu, fel y bydd yn amlwg ble y dylai pob rhan o'r data ymddangos ar y cerdyn pleidleisio.

4.41 Dylech hefyd gysylltu â'ch enw cyswllt yn y Post Brenhinol (neu gwmni dosbarthu masnachol) ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod gennych drwyddedau priodol ar waith a bod y cerdyn pleidleisio yn bodloni gofynion dosbarthu penodol.

4.42 P'un a fyddwch wedi gosod y gwaith o baratoi cardiau pleidleisio ar gontract allanol ai peidio, chi fydd yn parhau'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu paratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth. Felly, dylech sicrhau bod gennych drefniadau ar waith sy'n eich galluogi i sicrhau ansawdd y broses gyfan.

4.43 Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, dylech roi proses ar waith ar gyfer prawfddarllen cardiau pleidleisio yn fyw, yn cynnwys cardiau ar gyfer pleidleiswyr absennol, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cadarnhau'r deunydd sy'n cael ei baratoi mewn gwirionedd, a fydd yn tynnu sylw at unrhyw broflenni a gymeradwywyd sydd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad. Gellid hefyd gynnal hapwiriadau o fewn dosbarthiadau pleidleisio er mwyn gallu gwirio trawstoriad cynrychioliadol.

4.44 Rydym wedi llunio taflen ffeithiau prawfddarllen y gallwch ei defnyddio i'ch helpu i sicrhau ansawdd y broses gyfan. Gallai sicrhau bod prosesau prawfddarllen cadarn ar waith helpu i ganfod unrhyw wallau ac osgoi achosion posibl o dorri diogelwch data cyn iddynt ddigwydd.

A Rydym wedi cyhoeddi adnodd i Swyddogion Canlyniadau ar sicrwydd ansawdd wrth gynhyrchu a dosbarthu deunyddiau etholiad.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod gennych brosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar gardiau pleidleisio. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi prosesau ar waith i brawfddarllen y cardiau pleidleisio.

4.45 Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi dau hysbysiad newid etholiad interim cyn cyhoeddi'r hysbysiad newid etholiad terfynol ar y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad.[221] Mae'r hysbysiadau hyn yn helpu i sicrhau bod cardiau pleidleisio yn cael eu dosbarthu'n brydlon i'r etholwyr hynny sydd wedi gwneud cais i gofrestru yn agos i'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

4.46 Rhaid i'r hysbysiad newid interim cyntaf gael ei gyhoeddi ar y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, sef pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais.[222] Rhaid i'r ail hysbysiad interim gael ei gyhoeddi rhwng y deunawfed a'r chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais (cynhwysol).[223] Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech gysylltu ag ef er mwyn sicrhau y gall amseriad cyhoeddi'r ail hysbysiad interim ategu llunio eich ail set o gardiau pleidleisio.

4.47 Dylid anfon diweddariad o'r data cofrestru sy'n deillio o bob un o'r hysbysiadau newid at eich argraffwyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol fel y gellir llunio cardiau pleidleisio ar gyfer etholwyr newydd.

A Ceir rhagor o wybodaeth am hysbysiadau interim yn Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn o ganllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â rheoli contractwyr a chyflenwyr yn Rhan B - Cynllunio a threfnu. Rydym hefyd wedi llunio rhestr wirio datblygu contract i'ch helpu i weithio gyda chontractwyr/cyflenwyr.

Dosbarthu cardiau pleidleisio

4.48 Rhaid i chi anfon cardiau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad.[224] Lle y cyfunir cardiau pleidleisio, dim ond ar ôl i'r hysbysiad etholiad ar gyfer pob etholiad gael ei gyhoeddi y gellir eu dosbarthu.

Etholiadau cyngor cymuned

Nid oes angen anfon cardiau pleidleisio ar gyfer etholiadau cyngor cymuned. Fodd bynnag, gall y cyngor cymuned ofyn i chi anfon cardiau pleidleisio.[225] Yn ôl y gyfraith, rhaid i unrhyw gais o'r fath gael ei wneud erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais.[226] Dylech gysylltu â'r clerc ar gam cynnar er mwyn cael cadarnhad cynnar o benderfyniad y cyngor cymuned ar ddosbarthu cardiau pleidleisio fel y gallwch benderfynu'n derfynol ar ddyluniad unrhyw gardiau pleidleisio neu gardiau pleidleisio cyfunol y gallwch fod yn eu dosbarthu a gwneud hyn yn fuan ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad.

Nid yw'n anarferol i sefyllfa godi lle nad ymleddir etholiad cyngor cymuned. Er y gellir arbed arian drwy beidio ag argraffu cardiau pleidleisio lle gallech ddisgwyl nad ymleddir rhai seddi ac y caiff ymgeiswyr eu hethol heb unrhyw ymladd, mae cardiau pleidleisio yn dweud wrth bobl am yr etholiadau a gallant eu hannog i gymryd rhan ac yn aml eu hannog i ddiweddaru eu manylion cofrestru. Os yw'n debygol nad ymleddir yr etholiad cyngor cymuned, gallech, er enghraifft, gynnwys llinell ar y cerdyn pleidleisio sy'n tynnu sylw'r etholwr mewn etholiad cyngor cymuned yn ei ardal os ymleddir yr etholiad.

Ymhob achos, mae'n bwysig dosbarthu cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl ac felly, mater i chi fel Swyddog Canlyniadau yw asesu'r dyddiad gorau ar gyfer dosbarthu cardiau pleidleisio ymhob ardal etholiadol. Mewn achosion lle nad yw hyn yn digwydd nes ar ôl i enwebiadau gau, dylech ystyried sut i liniaru'r risg y bydd etholwyr yn cael cardiau pleidleisio yn agos at, neu, efallai, ar ôl y terfyn amser ar gyfer cofrestru.

4.49 Er mwyn sicrhau y bydd pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac mewn pryd iddynt fwrw eu pleidlais, dylech sicrhau y gall cardiau pleidleisio gael eu derbyn gan bleidleiswyr cyn gynted â phosibl, fel bod ganddynt gymaint o amser â phosibl i newid eu manylion cofrestru neu wneud cais am bleidlais absennol.

4.50 Bydd angen i chi gynnal asesiad o'r dyddiad dosbarthu gorau ar gyfer cardiau pleidleisio a dylech ganolbwyntio ar ba bryd y gall etholwyr ddisgwyl cael cardiau pleidleisio.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl fel bod ganddynt gymaint o amser â phosibl i

weithredu ar y wybodaeth. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi'r ffordd y dosberthir cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif o ba bryd y dosberthir cardiau pleidleisio.

4.51 Gellir dosbarthu cardiau pleidleisio â llaw neu drwy'r post.[227]

Dosbarthu â llaw

4.52 Os byddwch yn penderfynu dosbarthu cardiau pleidleisio â llaw dylech gynllunio sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Dylech benodi digon o staff i sicrhau bod cardiau pleidleisio yn cael eu derbyn gan bleidleiswyr cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr post yn cael cymaint o amser â phosibl i newid eu manylion cofrestru neu wneud cais am bleidlais absennol. Dylech nodi'n glir yn eich cyfarwyddiadau y diwrnod olaf y byddech yn disgwyl i bob cerdyn pleidleisio gael ei ddosbarthu.

4.53 Dylech sicrhau bod staff yn ymwybodol o ystyriaethau diogelu data, a dylech ystyried ei gwneud yn ofynnol i staff gadarnhau'n ysgrifenedig ar adeg recriwtio y byddant yn dilyn eich polisi diogelu data.

4.54 Dylech hefyd roi trefniadau ar waith i fonitro'r broses ddosbarthu, gyda'r nod o sicrhau bod cardiau pleidleisio wedi cael eu dosbarthu drwy'r ardal awdurdod lleol gyfan ac yn unol â'r amserlen. Gall hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i staff dosbarthu lenwi taflenni cofnodi a threfnu i oruchwylwyr gynnal hapwiriadau.

Dosbarthu drwy'r post

4.55 Gallwch ddefnyddio'r Post Brenhinol neu unrhyw gwmni dosbarthu masnachol arall i ddosbarthu'r cardiau pleidleisio. Os byddwch yn dosbarthu cardiau pleidleisio drwy'r post, dylech gydgysylltu â'ch darparwr gwasanaethau post i gytuno ar amserlen ar gyfer dosbarthu a chael unrhyw brawf postio a ddarperir gan y cwmni.

4.56 Dylech hefyd roi trefniadau ar waith i fonitro'r broses o ddosbarthu cardiau pleidleisio, gyda'r nod o sicrhau eu bod wedi cael eu dosbarthu drwy'r ardal awdurdod lleol gyfan ac yn unol â'r amserlen. Os oes modd, dylech roi trefniadau ar waith i olrhain y broses ddosbarthu er mwyn helpu i ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr.

4.57 Dylai'ch gwaith cynllunio wrth gefn ymdrin â sut y byddech yn dosbarthu unrhyw gardiau pleidleisio pe na bai'r Post Brenhinol neu'r cwmni dosbarthu masnachol a gontractiwyd gennych yn gallu dosbarthu'r cardiau pleidleisio, er enghraifft, oherwydd gweithredu diwydiannol.

4.58 Rhaid i gerdyn pleidleisio gael ei anfon i gyfeiriad cymwys etholwr neu, yn achos dirprwy, i gyfeiriad y dirprwy fel y'i dangosir yn y rhestr o ddirprwyon.[228]

4.59 Rhaid i gerdyn pleidleisio etholwr dienw gael ei anfon mewn prif amlen i gyfeiriad cymwys yr etholwr neu, os nodwyd cyfeiriad gwahanol ar ei gais cofrestru, rhaid anfon y cerdyn pleidleisio i'r cyfeiriad arall hwnnw.[229]

ARydym wedi cyhoeddi adnodd i Swyddogion Canlyniadau ar sicrwydd ansawdd wrth gynhyrchu a dosbarthu deunyddiau etholiad

Paratoi papurau pleidleisio

4.60 Rhagnodir ffurf papurau pleidleisio yn y rheolau perthnasol ar gyfer etholiadau a rhaid i chi ddilyn hyn yn ofalus.[230].

4.61 Rhaid i bapurau pleidleisio ar gyfer pleidleiswyr post ac at ddefnydd gorsafoedd pleidleisio ar gyfer pob etholiad fod ar yr un ffurf, ond gall y marc swyddogol fod yn wahanol os dymunir.[231]

4.62 Er nad oes modd cadarnhau cynnwys terfynol y papurau pleidleisio nes bod y broses enwebu wedi cau, bydd angen i chi fod yn glir ynghylch elfennau canlynol y papurau pleidleisio ar gam cynnar:

- lliw'r papurau pleidleisio
- y ‘marc swyddogol’
- rhifau'r papur pleidleisio
- marc adnabod unigryw

Lliw'r papur pleidleisio

4.63 Ni ragnodir lliw'r papur pleidleisio. Wrth benderfynu ar liw papurau pleidleisio dylech ystyried materion hygyrchedd o ran lliw a chyferbyniad. Mae adran 6 o ganllawiau dylunio arfer da'r Comisiwn, Making your mark, yn cynnwys cyngor ar ddewis lliwiau ar gyfer papurau pleidleisio.

4.64 Rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd fod yn lliw gwahanol i'r papurau pleidleisio cyffredin.[232]

Cyfuno

Os caiff etholiadau eu cyfuno, rhaid i liw pob papur pleidleisio fod yn wahanol.[233]

Y ‘marc swyddogol’

4.65 Rhaid ychwanegu marc diogelwch priodol - y ‘marc swyddogol’ - at y papur pleidleisio.[234] Dylai'r marc fod yn unigryw ac nid oes rhaid iddo gynnwys tyllu wedi'i ychwanegu ar adeg dosbarthu'r papur pleidleisio, ond gellir defnyddio offer stampio o hyd er mwyn creu marc swyddogol wedi'i dyllu. Gallai fod yn arwyddlun wedi'i argraffu neu farc neu ddyfais argraffu arbennig megis dyfrnod. Dylai fod modd ei weld ar flaen y papur pleidleisio fel y gellir ei weld heb orfod troi'r papur pleidleisio drosodd.

4.66 Yn ôl y gyfraith, gall y marc swyddogol fod yr un fath ar gyfer pob papur pleidleisio mewn etholiad neu gellir defnyddio marciau swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn yr un etholiad. Er enghraifft, un ar gyfer pleidleisiau post ac un arall ar gyfer papurau pleidleisio gorsafoedd pleidleisio. Ni all y marc swyddogol a ddefnyddir ar y papurau pleidleisio gael ei ailddefnyddio am bum mlynedd ar gyfer etholiad yn yr un ardal llywodraeth leol.[235]

Rhifau papurau pleidleisio a'r marc adnabod unigryw

4.67 Dylai rhifau papurau pleidleisio redeg yn olynol, ond nid oes rhaid iddynt ddechrau yn ‘1’.

4.68 Gall y marc adnabod unigryw gynnwys llythrennau a rhifau a gall ailadrodd rhif y papur pleidleisio gyda rhagddodiad neu ôl-ddodiad. Hefyd, gall marc adnabod unigryw fod yn god bar ond nid oes rhaid iddo fod. Nid yw yr un peth â'r marc swyddogol.

4.69 O ran y marc adnabod:

- dylai fod yn unigryw i bob papur pleidleisio
- gellir ei ailddefnyddio ar gyfer yr etholiad nesaf
- rhaid iddo gael ei argraffu ar gefn y papur pleidleisio[236]

Manylion ymgeiswyr

4.70 Ar gyfer pob etholiad, rhaid i enwau ymgeiswyr ymddangos ar y papur pleidleisio yn y drefn y cânt eu rhestru ar y datganiad o'r personau a enwebwyd[237] a rhaid i'w henwau a'u manylion perthnasol gael eu hargraffu yn unol â'r cyfarwyddiadau perthnasol ar gyfer argraffu [238]. Er enghraifft, mae'r cyfarwyddiadau'n nodi y dylai cyfenwau gael eu nodi mewn prif lythrennau, a byddai hyn yn cynnwys cyfenwau sy'n dechrau gyda MAC a MC, yn nhrefn yr wyddor.

4.71 Ym mhob achos, dylech ddefnyddio'r maint ffont mwyaf posibl. Er mwyn sicrhau cysondeb, dylid defnyddio'r un maint ffont ar gyfer pob ymgeisydd ar gyfer pob llinell gyfatebol.

4.72 Efallai y cewch gopi eglurder uchel o'r arwyddlun i'w ddefnyddio wrth argraffu papurau pleidleisio, neu efallai y bydd gofyn i chi lawrlwytho'r arwyddlun o wefan y Comisiwn. Dylech sicrhau bod pa gopi bynnag a ddefnyddir ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig.

4.73 Dau gentimetr sgwâr yw'r maint mwyaf y gellir ei gael ar gyfer arwyddlun ar y papur pleidleisio.[239] Wrth ychwanegu arwyddlun plaid ar bapur pleidleisio, ni ddylid newid siâp yr arwyddlun. Dylech sicrhau bod yr arwyddlun ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig - er enghraifft, peidiwch ag ymestyn arwyddluniau yn siapiau sgwâr os nad ydynt wedi'u cofrestru fel delweddau sgwâr ar ein gwefan, oherwydd byddai hyn yn newid eu hymddangosiad.

Y ffurf ar gyfer cefn y papur pleidleisio

4.74 Rhagnodir y ffurf ar gyfer cefn y papur pleidleisio a rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth ofynnol yn cael ei chynnwys ar gefn y papur pleidleisio yn y fformat a nodwyd.[240] Nid oes darpariaeth ar gyfer rhoi unrhyw linellau neu farciau eraill ar gefn y papur pleidleisio.

Argraffu papurau pleidleisio

4.75 Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r papurau pleidleisio gael eu hargraffu yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu yn yr atodiad i'r rheolau etholiadau perthnasol.[241] Dylech sicrhau eich bod yn cysylltu â'ch cyflenwr argraffu ar gam cynnar i gadarnhau maint mwyaf y papur pleidleisio y gall ei argraffu a sicrhau, os bydd angen, fod ganddo drefniadau wrth gefn os bydd angen papurau pleidleisio mwy o faint.

4.76 Os byddwch yn anfon data at gontractwr er mwyn cynhyrchu papurau pleidleisio ar gyfer yr etholiad, rydych yn defnyddio prosesydd. Fel rheolydd data, mae deddfwriaeth diogelu data yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol, wrth ddefnyddio prosesydd, i ffurfioli'r gydberthynas waith mewn contract sy'n nodi'r canlynol:

- y pwnc, natur a diben y prosesu;
- rhwymedigaethau a hawliau'r rheolydd data;
- hyd y cyfnod prosesu; ac
- y mathau o ddata personol a chategorïau o destunau data.

4.77 Hefyd, rhaid i'r contract nodi rhwymedigaethau penodol ar y prosesydd, gan gynnwys gwneud y canlynol:

- cydymffurfio â'ch cyfarwyddiadau
- bod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd
- cadw data personol yn ddiogel a'ch hysbysu am unrhyw achos o dorri diogelwch data
- cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgareddau prosesu y mae'n eu cyflawni ar eich rhan
- dim ond defnyddio is-brosesydd gyda'ch caniatâd
- ildio i archwiliadau ac arolygiadau a rhoi pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen arnoch i sicrhau y cydymffurfir â gofynion diogelu data
- dileu neu ddychwelyd unrhyw ddata personol fel y gofynnir amdanynt ar ddiwedd y contract.

4.78 Dylech roi prosesau prawfddarllen cadarn ar waith, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cadarnhau'r papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu hargraffu. Bydd hyn yn tynnu sylw at unrhyw broflenni a gymeradwywyd sydd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod proflenni yn cael eu gwirio ddwywaith gan o leiaf ddau berson.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod gennych brosesau cadarn ar waith i sicrhau nad oes unrhyw wallau ar y papurau pleidleisio. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau bod gennych broses ar waith ar gyfer prawfddarllen papurau pleidleisio, yn ogystal â threfniadau ar gyfer gwirio'r papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu hargraffu, a fydd yn tynnu sylw at unrhyw broflenni a gymeradwywyd sydd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad.

4.79 Pan fyddwch yn prawfddarllen papurau pleidleisio, dylech gadarnhau'r canlynol:

- bod pob ymgeisydd wedi ei gynnwys ar y papur pleidleisio gyda'i fanylion wedi'u dangos fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- bod yr holl fanylion ar y papur pleidleisio wedi'u sillafu'n gywir
- bod pob arwyddlun y gofynnwyd yn ddilys amdano wedi ei gynnwys wrth ymyl enw'r ymgeisydd cywir a'i fod yn cyfateb i gofnod y blaid yng nghofrestr y Comisiwn
- bod pob disgrifiad o ymgeisydd wedi cael ei argraffu yn erbyn yr ymgeisydd cywir
- bod y cyfarwyddiadau pleidleisio ar frig y papur pleidleisio yn cyfateb i'r gofynion deddfwriaethol
- bod y papurau pleidleisio wedi cael eu torri i'r maint cywir
- bod y marc swyddogol wedi'i gynnwys

4.80 Ar ôl i chi dderbyn y papurau pleidleisio wedi'u hargraffu, dylech gynnal gwiriad olaf cyn i unrhyw bapurau pleidleisio gael eu dosbarthu naill ai mewn sesiwn dosbarthu pleidleisiau post neu eu darparu mewn gorsaf bleidleisio. Dylid gwneud hyn drwy wirio'r papur pleidleisio cyntaf a'r un olaf o leiaf ym

mhob llyfr a thrwy gadarnhau bod rhifau papurau pleidleisio ym mhob llyfr neu becyn yn rhedeg yn olynol.

A Ceir canllawiau cyffredinol ar reoli contractwyr a chyflenwyr ac ar fonitro eu gwaith yn Rhan B - Cynllunio a threfnu. Rydym hefyd wedi llunio rhestr wirio datblygu contract i'ch helpu i weithio gyda chontractwyr/cyflenwyr.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu taflen prawfddarllen ac adnodd i Swyddogion Canlyniadau ar sicrwydd ansawdd wrth gynhyrchu a dosbarthu deunyddiau etholiad y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i sicrhau ansawdd y broses gyfan

4.81 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i nifer y papurau pleidleisio y bydd angen eu hargraffu er mwyn caniatáu i chi ddyrannu nifer digonol o bapurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post. Fel gofyniad sylfaenol, dylech seilio nifer y papurau pleidleisio a gaiff eu hargraffu ar y nifer mwyaf o etholwyr cymwys fydd yn pleidleisio, sef 100%. Mae risgiau sylweddol ynghlwm wrth argraffu papurau pleidleisio yn seiliedig ar nifer llai o etholwyr yn pleidleisio. Er enghraifft, os bydd nifer y papurau pleidleisio yn dechrau mynd yn brin ar y diwrnod pleidleisio, bydd yn anos bryd hynny i chi argraffu rhagor o bapurau pleidleisio a'u hanfon mewn pryd i'r gorsafoedd pleidleisio hynny lle mae prinder.

4.82 Os penderfynwch, am unrhyw reswm, beidio ag argraffu, fel gofyniad sylfaenol, bapurau pleidleisio yn seiliedig ar y nifer mwyaf o etholwyr cymwys yn pleidleisio, dylech asesu'r risgiau yn ofalus.

4.83 Fel rhan o'ch asesiad risg dylech ystyried:

- cyd-destun penodol yr etholiadau hyn
- unrhyw amgylchiadau lleol penodol
- y nifer rhagamcanol a fydd yn pleidleisio, gan ystyried y potensial ar gyfer ymgysylltu'n hwyr a diddordeb hwyr yn yr etholiadau. Fel gofyniad sylfaenol, dylech dybio na fydd y nifer sy'n pleidleisio yn llai na'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad cyfatebol diwethaf
- unrhyw faterion lleol neu genedlaethol a all effeithio ar y nifer sy'n pleidleisio
- p'un a yw'n well cael stoc o bapurau pleidleisio ychwanegol sy'n barod i'w dosbarthu'n gyflym i orsafoedd pleidleisio, o ran eich gallu i ymateb i alw ychwanegol, ac yn fwy costeffeithiol nag argraffu papurau pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio.

4.84 Dylech gymryd camau hefyd i sicrhau y gellir argraffu papurau pleidleisio ychwanegol ar fyr rybudd os bydd angen a phenderfynu sut y byddai staff gorsafoedd pleidleisio yn cael eu briffio pe bai'r sefyllfa hon yn codi.

4.85 Ceir canllawiau ar ddyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio ym Mhennod5.

Diogelwch papurau pleidleisio

4.86 Ar ôl i'r marc swyddogol gael ei argraffu ar eich papurau pleidleisio, maent yn ‘fyw’ i bob diben. Ni waeth a ydych wedi gosod y gwaith argraffu ar gontract allanol neu a ydych yn argraffu'n fewnol, er mwyn sicrhau y gall fod gan bleidleiswyr hyder yn y broses, dylech sicrhau diogelwch papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu paratoi a'u storio. Dylai eich trefniadau diogelwch atal pobl rhag gweld a defnyddio'r papurau pleidleisio heb awdurdod ar bob cam o'r broses o'u llunio ac wrth eu storio rhwng yr adeg pan gânt eu hargraffu a'r etholiad.

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodir yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod papurau pleidleisio'n cael eu storio'n ddiogel bob amser. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer storio papurau pleidleisio yn ddiogel sy'n atal pobl rhag gweld na defnyddio'r papurau pleidleisio heb awdurdod ar bob cam o'r broses baratoi a storio rhwng argraffu a'r bleidlais.

5 Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

5.1 Rydym wedi paratoi llawlyfr i orsafoedd pleidleisio sy'n ymdrin â'r gweithdrefnau pleidleisio'n fanwl a'r hyn y dylech ei ddisgwyl ar y diwrnod pleidleisio.

5.2 Nid yw'r canllawiau a geir yn y llawlyfr i orsafoedd pleidleisio wedi cael eu hatgynhyrchu yma. Yn lle hynny, mae'r rhan hon o'n canllawiau'n canolbwyntio ar y gwaith paratoi y bydd angen i chi ei wneud cyn y diwrnod pleidleisio.

Trefnu gorsafoedd pleidleisio

A Ceir canllawiau ar nodi gorsafoedd pleidleisio addas yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

5.3 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y caiff gorsafoedd pleidleisio eu gosod gan ystyried y pleidleisiwr. Yn benodol, dylid ystyried anghenion pleidleiswyr sydd ag anableddau gwahanol. Dylid hefyd ystyried y ffordd y caiff yr holl ddodrefn a chyfarpar angenrheidiol eu gosod, yn ogystal â ble y dylid arddangos hysbysiadau, ynghyd â gosod arwyddion y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac arwyddion allanol.

5.4 Dylech ddatblygu cynlluniau ar gyfer diwyg pob un o'r gorsafoedd pleidleisio y gellir eu defnyddio i helpu'r rhai sy'n gosod y gorsafoedd pleidleisio. Dylech ystyried y llif, gan gynnwys sut y bydd y pleidleisiwr yn symud drwy'r broses bleidleisio o'r adeg y daw i mewn i'r orsaf bleidleisio i'r adeg y bydd yn ei gadael.

5.5 Dylai pwy bynnag sy'n gyfrifol am drefnu gorsafoedd pleidleisio gael cyfarwyddyd ynglŷn â sut i wneud hynny a'r hyn y dylai'r diwyg allu ei gyflawni.

5.6 Os na ddisgwylir i staff gorsafoedd pleidleisio drefnu gorsafoedd pleidleisio, dylent gael eu cyfarwyddo i gadarnhau bod yr orsaf bleidleisio wedi'i threfnu'n gywir, a dylent gyfeirio at unrhyw gynlluniau diwyg a baratowyd gennych a'r rhestr wirio ar gyfer trefnu gorsaf bleidleisio yn llawlyfr y Comisiwn i orsafoedd pleidleisio wrth wneud hynny. Mae'r llawlyfr i orsafoedd pleidleisio hefyd yn ymdrin â lleoli cyfarpar ac arddangos

hysbysiadau, ac yn rhoi enghreifftiau o ddiwyg ar gyfer ystafell lle mae un orsaf bleidleisio ac ystafell lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio.

Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodir yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau yr ystyrir anghenion mynediad wrth gynllunio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'u sefydlu a sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio wedi'u hyfforddi i sefydlu gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd sy'n ystyried anghenion pleidleiswyr. Er mwyn dangos y gellir cyflawni'r canlyniad, bydd angen i chi asesu anghenion mynediad, nodi unrhyw broblemau a chamau gweithredu a gymerwyd i'w datrys a darparu canllawiau/hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio.

A Ceir rhagor o ganllawiau ar hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

5.7 Gellir defnyddio ymweliadau arolygwyr gorsafoedd pleidleisio i gadarnhau diwyg gorsaf bleidleisio a sicrhau bod yr holl hysbysiadau yn parhau i gael eu harddangos yn gywir drwy'r diwrnod pleidleisio cyfan.

A Ceir rhagor o fanylion am rôl arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

Rydym hefyd wedi llunio rhestr wirio ar gyfer arolygwyr gorsafoedd pleidleisio y gallant ei defnyddio wrth gynnal eu hymweliadau.

Cyfarpar a deunyddiau gorsafoedd pleidleisio

5.8 Rhaid i chi ddarparu deunyddiau penodol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio:

- Blwch/blychau pleidleisio.
- Papurau pleidleisio (gan gynnwys papurau pleidleisio a gyflwynwyd).
- Deunyddiau sy'n galluogi pleidleiswyr i farcio eu papurau pleidleisio (pensiliau neu bennau ysgrifennu yn ymarferol – efallai y dylech ddarparu llinyn er mwyn atodi'r pensiliau/pennau ysgrifennu i'r bythau pleidleisio).
- Y rhan berthnasol o'r gofrestr.
- Y rhestrau o bleidleiswyr absennol – rhestrau o bleidleiswyr drwy'r post, dirprwyon pleidleiswyr a dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post.
- Ffurflen i gofnodi manylion etholwyr sydd wedi cael papurau pleidleisio ar ôl i wall clercio gael ei gywiro (y gellir ei hatodi i gofrestr yr orsaf bleidleisio).
- Y rhestr rhifau cyfatebol.

- Copi sampl mwy o faint o'r papur(au) pleidleisio, gyda'r gair 'sampl' arno, i'w harddangos y tu mewn i'r orsaf bleidleisio[242].
- Copi sampl mwy o faint o'r papur(au) pleidleisio, gyda'r gair 'sampl' arno', i'w roi i etholwyr i fynd gyda nhw i fwth pleidleisio er gwybodaeth.
- Dyfais bleidleisio at ddefnydd pobl rannol ddall, i'w galluogi i bleidleisio heb fod angen unrhyw gymorth arnynt. Rhaid i hyn alluogi'r papur pleidleisio i gael ei gysylltu a'i ddatgysylltu heb ddifrodi'r papur pleidleisio. Dylai hefyd gadw'r papur pleidleisio yn dynn yn ei le a galluogi'r pleidleisiwr i wybod ble ar y papur pleidleisio y dylai nodi ei bleidlais yn erbyn ei ddewis ymgeisydd neu ymgeiswyr.
- Cyfrifon papurau pleidleisio.
- Datganiad gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau.
- Rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd.
- Rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu.
- Datganiad o nifer y pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- Rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion.
- Hysbysiad 'Canllawiau i bleidleiswyr' (i'w arddangos y tu mewn (ond nid yn y bwth pleidleisio) a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio). [243]
- Hysbysiad cyfarwyddiadau i bleidleiswyr (i'w arddangos y tu mewn i'r bwth pleidleisio)
- Sgriniau pleidleisio.
- Pecynnau, gyda seliau, i osod ynddynt yr eitemau a gaiff eu dychwelyd atoch, megis papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i'r orsaf bleidleisio, a deunydd pecynnu ar gyfer dogfennaeth yr etholiad ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.[244]

5.9 At hynny dylech ddarparu'r canlynol:

- copi o'r gofynion ynglŷn â chyfrinachedd
- amlenni, gyda seliau, i osod ynddynt unrhyw bapurau pleidleisio a ddosbarthwyd ond nad yw'r etholwr wedi'u gosod yn y blwch pleidleisio
- ffurflen neu restr i gofnodi etholwyr a farciwyd yn bleidleiswyr drwy'r post ond sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post
- papur nodiadau at ddefnydd staff yr orsaf bleidleisio
- eitemau deunydd ysgrifennu fel sy'n ofynnol, e.e. clipiau papur, pinnau bawd, tac glynu, tâp selio
- sachau plastig ar gyfer dychwelyd deunydd ysgrifennu ac offer i'r lleoliad dilysu
- amlenni ar gyfer creu pecynnau

5.10 Dylech gadarnhau bod cyfarpar pob gorsaf bleidleisio yn addas at y diben a bod gennych ddigon ohono, yn enwedig os bydd niferoedd mawr yn pleidleisio.

Cyfuno

Bydd angen i chi ystyried p'un a ddefnyddir un blwch pleidleisio ar gyfer yr etholiadau cyfunol neu flychau pleidleisio ar wahân ar gyfer pob etholiad. Os byddwch yn defnyddio un blwch pleidleisio ar gyfer etholiadau cyfunol, bydd

angen i chi ystyried darparu blychau ychwanegol i Swyddogion Llywyddu oherwydd efallai na fydd un blwch yn ddigon os bydd nifer mawr o bobl yn dewis pleidleisio. Rhaid i bob blwch pleidleisio i'w ddefnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio gael ei selio gan staff gorsafoedd pleidleisio ar ddechrau'r bleidlais.[245]

Al gael canllawiau pellach ar ddefnyddio un blwch pleidleisio neu flychau pleidleisio ar wahân mewn etholiadau cyfunol, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif.

5.11 Dylech fod wedi paratoi cyfarpar a deunyddiau eich gorsafoedd pleidleisio mewn da bryd cyn y diwrnod pleidleisio, naill ai i'w dosbarthu i orsafoedd pleidleisio neu i'w casglu gan Swyddogion Llywyddu.

5.12 Fel rhan o'ch gwerthusiad o addasrwydd eich gorsafoedd pleidleisio byddwch eisoes wedi ystyried materion hygyrchedd y tu mewn a'r tu allan i bob un o'ch gorsafoedd pleidleisio. Dylech sicrhau y caiff unrhyw gyfarpar ychwanegol rydych wedi'i nodi sy'n ofynnol er mwyn gwneud yr orsaf bleidleisio yn hygyrch ei ddosbarthu a'i osod mewn da bryd cyn i'r bleidlais agor.

5.13 Os oes dolen sain wedi'i gosod mewn gorsaf bleidleisio, dylid ei defnyddio lle bynnag y bo modd er mwyn gwneud y broses etholiadol yn hygyrch i bleidleiswyr sydd â cholled clyw. Byddai angen rhoi hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ynglŷn â sut i ddefnyddio'r rhain yn y sesiwn friffio.

5.14 Rhaid i chi roi copi o'r gofynion cyfrinachedd i staff gorsafoedd pleidleisio.

Refferenda maerol

Rydym hefyd wedi cyhoeddi gofynion cyfrinachedd ar gyfer refferenda maerol i orsafoedd pleidleisio.

Dyrannu papurau pleidleisio

5.15 Rhaid i chi roi'r cyfryw nifer o bapurau pleidleisio ag sydd ei angen, yn eich barn chi, i bob gorsaf bleidleisio.[246] Os nad ydych yn dyrannu papurau pleidleisio ar gyfer 100% o'r etholwyr sydd â hawl i bleidleisio yn bersonol yn y gorsafoedd pleidleisio, bydd angen ystyried yn ofalus y nifer a fydd yn ofynnol ym mhob achos.

5.16 Fel rhan o'ch ystyriaeth, dylech ystyried nifer y bobl y mae disgwyl iddynt bleidleisio. Dylech dybio na fydd y nifer a fydd yn pleidleisio yn llai na'r nifer a bleidleisiodd yn y bleidlais gyfatebol ddiwethaf, a dylech ystyried y potensial ar gyfer ymgysylltu'n hwyr a diddordeb hwyr yn yr etholiad, ac

unrhyw faterion lleol neu genedlaethol a all effeithio ar y nifer a fydd yn pleidleisio.

5.17 Os byddwch yn penderfynu, am unrhyw reswm, beidio â dyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio yn seiliedig ar 100% o'r etholwyr cymwys yn pleidleisio, dylech sicrhau bod gennych gynlluniau ar waith i wneud yn siŵr y gellir rhoi papurau pleidleisio ychwanegol i unrhyw orsaf bleidleisio y bydd eu hangen arni mewn pryd a rhoi cyngor clir i Swyddogion Llywyddu ynghylch sut i gwblhau'r cyfrifon papurau pleidleisio er mwyn ystyried y dyraniad ychwanegol.

5.18 Wrth ddyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio, sicrhewch fod y rhifau ar y papurau pleidleisio a ddyrennir i bob gorsaf bleidleisio yn rhedeg yn olynol er mwyn osgoi unrhyw broblemau wrth gwblhau'r rhestr rhifau cyfatebol neu'r cyfrif papurau pleidleisio. Ceir canllawiau pellach ar argraffu papurau pleidleisio ym **Mhennod 4.**

5.19 Rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd hefyd gael eu darparu i Swyddogion Llywyddu.[247] Dylai papurau pleidleisio a gyflwynwyd gael eu darparu i orsafoedd pleidleisio mewn amlen wedi'i selio gyda chyfarwyddiadau sy'n nodi na ddylai'r amlen gael ei hagor ac mai dim ond o dan amgylchiadau a bennir y dylid dosbarthu'r papurau pleidleisio ynddi, a dylid rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau hynny. Gall hyn helpu i osgoi rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar gam.

5.20 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod staff pob gorsaf bleidleisio yn deall bod amgylchiadau cyfyngedig lle y gellir dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd, a'u bod yn ymwybodol o'r amgylchiadau hyn a pha brosesau y bydd yn ofynnol iddynt eu dilyn wrth eu dosbarthu. Ymdrinnir â'r amgylchiadau lle y gellir dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd a'r prosesau ar gyfer gwneud hynny yn llawlyfr y Comisiwn i orsafoedd pleidleisio.

A Ceir rhagor o ganllawiau ar hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

Cofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau pleidleiswyr absennol

5.21 Rhaid i chi ddarparu'r rhan briodol o'r gofrestr i bob Swyddog Llywyddu ar gyfer ei orsaf bleidleisio a rhestrau pleidleisio absennol priodol.[248] Dylai staff gorsafoedd pleidleisio fod wedi cael hyfforddiant ar y marcwyr etholfraint amrywiol a fydd yn ymddangos ar y gofrestr. Dylai staff gorsafoedd pleidleisio

fod yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelu manylion personol pleidleiswyr ar y gofrestr etholiadol a rhestrau o bleidleiswyr absennol.

5.22 Gellir argraffu cofrestrau gorsafoedd pleidleisio pan fydd yr hysbysiad newid etholiad terfynol wedi'i gyhoeddi, sef pum diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Dylech sicrhau bod pob cofrestr gorsaf bleidleisio argraffedig wedi'i gwirio er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn, yn adlewyrchu unrhyw beth sydd wedi'i ychwanegu at y gofrestr neu ei ddileu ohoni yn ddiweddar, a bod yr argraffnodau etholfraint priodol ar waith. Dylech hefyd ofyn i'ch Swyddogion Llywyddu gadarnhau eu bod wedi cael y gofrestr gywir ar gyfer eu gorsaf bleidleisio a'i bod yn cynnwys y nifer disgwyliedig o etholwyr a ddyrannwyd i'w gorsaf bleidleisio.

5.23 Dylai gweithdrefnau gael eu rhoi ar waith i ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i gofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau o ddirprwyon ar ôl iddynt gael eu hargraffu sy'n deillio o newidiadau o ganlyniad i gywiro gwallau clercio neu benderfyniadau'r llys ar apeliadau cofrestru a chymeradwyo ceisiadau i benodi dirprwyon mewn argyfwng.

